

Safle Treftadaeth Byd i ardal y Chwareli Llechi?



Er fod ambell chwarel lechi yn parhau ar agor, mae mwyafrif yr hen ardaloedd chwarelyddol traddodiadol wedi bod dangwmwl. Ond ddydd Mawrth, 23ain o Hydref cyhoeddwyd mai ardal y chwareli llechi yng Ngwynedd yw dewis y Deyrnas Unedig i'w chynnig fel Safle Treftadaeth Byd UNESCO. Cyhoeddwyd y newyddion gan y Gweinidog Treftadaeth, Michael Ellis.

Does dim angen dweud wrth ddarllenwyr yr "Eco" mai dyma'r ardal a fu'n gyfrifol am do'r byd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Allforiwyd ei llechi i bedwar ban byd gan gyfoethogi meistri'r Faenol, y Penrhyn ac eraill. Ond pan edwinodd y diwydiant, gweithwyr, teuluoedd a chymunedau y pentrefi chwarelyddol a ddioddefodd – ac sy'n dal i ddiodefod.

Gyda'r newyddion daw llygedyn o oleuni i ddyffrnoedd y chwareli llechi. A dyfynnu Mims Davies, y Gweinidog dros Gymru: "An accolade such as this..... acts as a catalyst to investment and tourism. The status would help to revive and grow the economy of the slate

areas." Does ond gobeithio nad ar y diwydiant ymwelwyr yn unig y rhoddir y pwyslais economaidd.

Bydd y cais yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i UNESCO y flwyddyn nesaf, ac yn cael ei ystyried gan eu Cyngor Safleoedd ac i ddilyn gan Bwyllgor Treftadaeth Byd yn 2021. Os yn llwyddiannus, bydd yn ymuno â safleoedd megis y Grand Canyon, y Taj Mahal a Wal Fawr China.

Er fod y cais yn cynnwys holl ardaloedd y chwareli llechi yng Ngwynedd, mae'n debygol mai yma, yn ein hardal ni y bydd y canolbwynt, am mai yma y lleolir Amgueddfa Lechi Cymru.

Rhaid llongyfarch pawb sydd wedi gweithio'n ddyfal i baratoi a chyflwyno'r cais. A phan ddaw llwyddiant, dyna'r amser, gobeithio, y gwelir y pentrefi a'r ardaloedd chwarelyddol yn ffynnu unwaith eto – yn ariannol, yn gymunedol ac yn ddiwylliannol.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

RHIF 470 Tachwedd 2018

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau ar e-bost i Dafydd Whiteside Thomas Bron y Nant, Llanrug 01286 673515 ecoryyddfa@gmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221) glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Egan, Brynrefail (01286) 872306 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts, Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn Rhagfyr	Copi i law Sul 18 Tachwedd	Bwndelu Gwener 30 Tachwedd	Ble Caethro
Nadolig/Ionawr	Sul 9 Rhagfyr	Gwener 21 Rhagfyr	Llanrug

LLYTHYRAU

Common Voice - a wnewch chi gyfrannu tuag at Common Voice Cymraeg?

Project Common Voice yw'r ymgais i greu data rhydd ar gyfer adnabod lleferydd, fel bod peiriannau yn gallu cofnodi'r hyn rydych yn ei ddweud wrthyn nhw, ei ddeall ac ymateb iddo.

Mae hyn yn galluogi darparu rhaglenni a pheiriannau ar gyfer y deillion a'r anabl, cynorthwywyr personol, llywio mewn ceir, ac ati. Mae'r rhain eisoes yn bodoli yn Saesneg, yr her nawr yw eu cael yn Gymraeg.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o Gymru, a'r byd i gyfrannu. Gorau po fwyaf o amrywiaeth mae'r peiriant yn ei gael, y gorau y bydd yn gallu eu dehongli.

Gan fod offer Common Voice ar wefan ac ap mae modd cyfrannu yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd. Mae modd cyfrannu drwy ddarllen brawddegau a phytiau a thrwy ddilysu lleisiau pobl eraill. Mae'r ddwy elfen yn bwysig.

Mae modd defnyddio eich cyfrifiadur eich hun os oes ganddo feicroffon a chlustffonau/uchelseinydd neu yn gallu cysylltu rhai iddo. Mae modd hefyd defnyddio'r ap ar gyfer iPad neu iPhone diweddar.

Mae Common Voice Cymraeg yn bartneriaeth rhwng Mozilla Foundation, gwneuthurwr y porwr Firefox, Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a Meddal.com.

Mae modd cyfrannu at Common Voice Cymraeg yn: voice.mozilla.org/cy/new

a'r ap iPhone neu iPad o'r App Store yn:

www.itunes.apple.com/us/ap/project-common-voice-by-mozilla/id1240588326

Mae rhagor o wybodaeth a chyfarwyddid i'w cael ar wefan Meddal.com

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Yng nghyfarfod Hydref o'r Cylch cawsom y ffrainc o gael cwmni y Cofiadur a Chyn Archdderwydd a Bardd Cenedlaethol, Christine James. Darllenodd nifer o'i cherddi gan esbonio y cefndir, rhai yn delio â gweithiau Celf byd enwog a rhai i'w theulu a ffrindiau ac eraill ysgafnach yn cofnodi ei thaith i ddod yn fardd. Diolchwyd yn gynnes iawn i Christine am noson ddifyr iawn gan Geraint Jones, Mis nesaf ar yr 20fed o Dachwedd yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 yr hwyr cawn gwmi Yr Athro Bleddyn Owen Huws yn trafod ei lyfr diweddaraf ar T.H. Parry Williams, "Y Meddyg Na Fu".

Dowch i fwynhau, mae croeso cynnes yn eich haros

Gwell Na Photel o Ffisig!

Fasach chi'n hoffi noson allan a chael llond bol o chwerrthin 'run pryd? Wel, dyna'n union beth gewch chi os dowch chi i Theatr Seilo, Caernarfon nos Sadwrn, 24 Tachwedd, am 7 o'r gloch. Rydan ni'n lwcus iawn o fod wedi perswadio Cwmni Drama Rhuthun i ddod draw i gyflwyno 'Allan o Drefn' gan Ray Cooney (cyfieithiad Garry Nicholas).

Sut ddrama ydi hi felly? Wel, FFARS ydi hi efo lot o fynd a dwad, neidio i mewn ac allan o ffenestri a gwllau a chpyrddau, gwleidyddion yn cambihafio ("Beth sy'n newydd?" glywa i chi'n ddeud) a llawer iawn o gymeriada brith eraill.

Mae Cwmni Drama Rhuthun yn gwmi profiadol iawn ac wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol fwy nag unwaith. Nic Parri ydi'r cyfarwyddwr a'r prif actor-ia, y fo, y dyn ei hun. Sut mae o'n cael amser i wneud popeth dudwch?

Mae 'na ddeg yn y cast ac maen nhwytha yn edrych ymlaen fel na fuo'r otsiwn beth i wneud eu 'debut' yn Nhref Cofis.

Cofiwch y dyddiad - Nos Sadwrn, 24 Tachwedd am 7 o'r gloch. Rhowch o ar y calendr rwan

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50: Er cof am Huw Deulyn Williams, Bethel gan y teulu

£25: J M a Mair Jones, Tan y Buarth, Bethel

£20: Er cof am Lynne Warner, Rhos Faenol, Deiniolen, gan y teulu; Er cof am Sion Rhys, Pen Rhos, Waunfawr, gan y teulu.

£10: Marian Jones, Dinorwig; Teulu Hafod y Rhug Uchaf, Waunfawr.

£5: Sylvia Jones, 4 Rhos Marian Deiniolen.

£3: Di-enw

Cyfarfod Blynyddol "Eco'r Wyddfa"

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Lun, 12fed o Dachwedd am 7.00.

Mae datblygiadau newydd a chyffrous ar fin cychwyn yn Arfon. Dros y pedair blynedd nesaf y gobaith yw sefydlu gwefannau bro unai'n unigol neu'n cwmpasu pump papur bro Arfon. Y bwriad yw cyflogi swyddog a fydd yn gyfrifol am ysgogi'r gwaith - ond bydd angen gwirfoddolwyr. Dyma felly gyfle i rai sydd a diddordeb mewn cyflwyno newyddion lleol ar gyfrwng digidol (yn hytrach na phapur) i fod yn rhan o'r datblygiad cyffrous newydd hwn.

Croeso arbennig i ieuencid sydd a diddordeb yn y cyfryngau cymdeithasol o bob math i wybod mwy am y cynllun ac i gynnig eu hunain fel rhan ohonno. (Gweler hefyd apêl Marged ar Dudalen yr Ifanc)

Ac i'r rhai sy'n ddibynnol ar y papur am eich newyddion, dyma gyfle i chwithau 'ddweud eich dweud' am yr hyn a hoffech ei weld yn yr "Eco" dros y blynyddoedd i ddod.

Byddai'r Pwyllgor Llywio (bychan, ond gweithgar!) yn falch iawn o dderbyn eich presenoldeb.

Dileu enw Cymraeg hanesyddol

Mae datblygiadau twristaidd wedi bod yn gyfrifol am ddisodli enwau Cymraeg cynhenid. Does ond angen edrych ar fap yn enwi traethau Ynys Môn i sylweddoli fod Porth Swtan bellach yn Church Bay, a sawl 'porth' Cymraeg arall wedi eu hail-enwi. A lledodd y pla i'n hardal ni. Aeth Pen Gorffwysfa Peris yn Pen y Pass ac enw Mallory wedi ei blastro ar ei dalcen. Cododd cytiau cysgu (bunkhouses) fel madarch yma, a'u henwi'n Saesneg.

Bellach, mae ffermdy hynafol wrth odre Moel Cynghorion yng Nghwm Brwynog mewn perygl o golli ei enw gwreiddiol. Mae'r Helfa erbyn hyn yn cael ei hysbysebu ar y wê fel Crashpad Lodge! (Nid yw gofod yn caniatáu cynnwys yr holl ebychnodau sydd eu hangen ar ôl y fath enw).

O edrych ar safle'r cwmni ar y wê daw llun deniadol o'r olygfa ar draws Cwm Brwynog tua Maesgwm, a ffermdy'r Helfa yn swatio yng nghesail Moel Cynghorion. Mae paragraff byr disgrifiadol yn dilyn, yn cynnwys y frawddeg "The original Welsh name for the bunkhouse is Yr Helfa", ac y mae'n awgrymu'n gryf mai dyna **oedd** yr enw, ac nad dyna **fydd** yr enw o hyn ymlaen. Mae'r cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y safle yn sôn am Snowdon Cafe yn hytrach na Phen y Ceunant, a cheir rhybudd i beidio a pharcio ger y sgubor "rhag i anifeiliaid fferm niweidio eich cerbydau". Wedyn y daw'r cais am beidio parcio am fod y ffermwr angen mynediad. Hawliau'r trigolion lleol yn eilbeth wrth gwrs.



Mae lle i roi sylwadau ar y safle. Broliant gan wahanol grwpiau sydd eisoes wedi defnyddio'r lle yw'r cyfan. Oes angen awgrymu y dylem ni, Gymry Cymraeg, anfon sylwadau fymryn yn wahanol, ac annog y perchennog i gadw at yr enw gwreiddiol?

Cyngorodd
YSGOL BRYNREFAIL

NOS SADWRN
RHAGFYR 1^{af.} awr 7^or gloch

Llu o Artistiaid Lleol

TRIO	PIANTEL
SIAN WYN GIBSON (soprano)	GWEN ELIN (THEATR CERDD)
Côr Meibion Dwyfor	CHLOE a IOLA (DAWNS)
Antur Waunfawr	Catrin Llewelyn Gruffudd (piano)
Plant Ysgol Penisarwaun	Ensemble Pres YSGOL BRYNREFAIL

★ Cyfeilydd- Annette Bryn Parri ★
Arweinydd y Noson- Gwyn Parri ★

TOCYN-£10.
AR GAEL TRWY FFONIO- 01286 871 330
Mynediad am ddim i Blant Ysgol

Elw'r Noson i Gronfa Staff wnaeth gollu eu gwaith yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun

AVW **WORKSHOP** Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559** **MOT TESTING STATION**

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Yn ystod y mis aeth heibio....

• Yn ôl y Prif Weinidog mae deng mlynedd y Cyfnod Caledi Ariannol drosodd. Trueni nad yw hynny'n wir i Gyngorau Sirol Cymru, sy'n wynebu toriadau eto eleni. Ond wrth gwrs, bai Llywodraeth Cymru yw hynny nid y Llywodraeth Llundainig. A gwir y dywedodd y Prif Weinidog, gydag £18 miliwn yn cael ei wario ar 'ddiogelwch' i'r Arlywydd Trump yn ystod ei arhosiad byr yma'n gynharch. Ac wrth gwrs roeddem ninnau, daeogion brenhinol, yn hynod falch o gael cyfrannu £2 filiwn tuag at ddatliadau priodas wyres y frenhines. Blaenoriaethau: hwnna ydio.

• Cyhoeddwyd newidiadau sylweddol i daliadau llesiant gyda'r bondigrybyll Gredyd Cynhwysol. Credir y bydd tua 3 miliwn o bobl yn dlotach o tua £1,800 y flwyddyn o ganlyniad i'r newidiadau. Yr Ysgrifennydd Gwaith a Phensiynau, Esther McVey yn cydnabod y bydd "rhai pobl" yn waeth allan.

• Yn ddibynnol ar gyngor meddygol arbennigol, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref, Sajid Javed, y gallai cannabis fod ar gael ar bresgripsiwn cyn diwedd y flwyddyn.

• Storm Callum yn ymweld ganol Hydref, a degau o goed yn disgyn o ganlyniad i'r gwyntoedd cryfion. Tirlithriadau a llyfogydd hefyd yn effeithio ar nifer helaeth o ardaloedd. A hyn yn digwydd yn ystod y rhybudd gan 80 o brif wyddonwyr rhyngwladol fod gan y byd ddeuddeng mlynedd yn unig i atal newidiadau allai arwain at ddifodiant ein planed. Newyddion dychrynlyd yng ngwir ystyr y gair. A beth oedd yn mynd â sylw'r mwyafrif o bapurau dyddiol y wlad? Y ffaith fod dau o ddawnsywyr rhyw gystadleuaeth deledu wedi eu dal yn cusannu! Duw a helpo ein plant, a phlant ein plant.

• Ta, ta Arriva, a chroeso (am bum mlynedd o leiaf) i Trafniadaeth Cymru, fydd yn ôl eu hysbysebion, yn trawsnewid sustem rheilffyrdd Cymru. Ymhlith eu haddewidion mae trenau newydd i ddisodli'r hen rai - erbyn 2021, a gwasanaeth newydd o Fangor i Faes Awyr Manceinion erbyn 2023. Mae'r gweddill i gyd yn ne Cymru, gan gynnwys cysylltiadau i Fryste a de Lloegr. Mae'n ymddangos nad yw cysylltu gogledd, canolbarth a de Cymru â'i gilydd yn rhan o'u cynlluniau. Enw braidd yn gamarweiniol felly.

• ac mae Syrcas Brexit yn parhau, a sawl clown yn cystadlu am sylw'r gynulleidfa.

Ysgol Dolbadarn



Gwesty Trychfilod : Bu'r plant yn brysur yn creu gwesty trychfilod yn ddiweddar. Y bwriad yw eu rhoi yn ardd yr ysgol a gweld pa drychfilod fydd yn dewis cartrefu ynddynt. Gwaith cartref oedd y dasg, ac yn amlwg yr oedd yn dasg hynod o boblogaidd. Bydd y disgyblion yn mentro i Goed Doctor cyn bo hir er mwyn cymharu'r cynefinoedd.

Daeth y sioe Mewn Cymeriad i'r ysgol yn ddiweddar i gyflwyno Owain Glyndwr i'r plant fel rhan o'r gweithgareddau Siarter Iaith. Bu i'r plant fwynhau yn fawr ac yr oeddynt i gyd yn byrlymu siarad Cymareg yn dod o'r neuadd- gwych!

Cystadleuaeth Cwmni Peirianeg Griffiths



Daeth Mandy o gwmni Griffiths i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn hysbysu'r disgyblion am y gwaith adeiladu sydd wrth yr hen lyfrgell ar hyn o bryd. Cafwyd eglurhad manwl o fwriadau'r gwaith a hefyd y rhesymau am y gwaith trin yr afon yn dilyn llifogydd 2012.

Dyma ddisgyblion CA2 yn derbyn eu gwobrau gan Gwmni Griffiths am greu poster diogelwch safle adeiladu, yn ddiweddar. Cadi Ball oedd ar y brig y tro hwn a bu iddi dderbyn tocyn llyfr

gwerth £10. Mae'r poster buddugol mewn arddangpsfa yn adeilad y llyfrgell ar hyn o bryd.

Diolch hefyd i gwmni Griffiths am eu rhodd caredig o sement tuag at adeiladu'r Ty Gwydr/Polytunnel yn ddiweddar ac i'r rhieni a fuodd yn brysur yn ei dywallt yn ardd yr ysgol.

Mae'r Cyngor ysgol wrthi'n brysur yn trafod enwau posibl ar gyfer enwi'r pont droed newydd.

Parhad LLANBERIS



Ti a Fi Llanberis



Mae Ti a Fi Llanberis bellach wedi ailgychwyn yn y pentref. Mae'n gyfle i rieni a gwarchodwyr ddod at ei gilydd am sgwrs a phaned tra mae'r plant yn chwarae. Mae yna hefyd weithgaredd celf ar y bwrdd dwylo prysur ac amser ffrwythau a chanu ar ddiwedd y sesiwn i ddysgu caneuon a hwiangerddi Cymraeg. Mae'r grŵp yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr sydd yn cymryd tro i baratoi'r ffrwythau ac estyn yr offer. Mae hi'n braf gweld cymaint o fabis a



phlant yr ardal yn dod at ei gilydd i chwarae. Rydym yn ddiolchgar i Ken a phwyllgor y ganolfan am bob help i ail sefydlu. Diolch hefyd i Benji sydd yn ein helpu i dynnu offer cyn y sesiwn.

Mae'r sesiwn yn cael ei gynnal ar fore dydd Gwener am 9.00-10.30 yn y ganolfan. Mae'r sesiwn am ddim ac yn addas ar gyfer babis a phlant hyd at oed cyn ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Gydag ymddiheuriad am fethu cynnwys y canlynol yn rhifyn Hydref:

Marwolaeth Rosina Alcroft

Bu farw Rose ar Fedi 1af yn Adelaide, Awstralia. Gwraig, mam, merch, nain, chwaer, chwaer yng nghyfraith a ffrind arbennig a hoffus iawn. Ganwyd Rose yn 9 Maes Derlwyn i'r diweddar Lowri a Bob Davies ac yn un o naw o blant, Mary, Roland, Laura, Evan, Christine, Bobi, Gari a Meira. Bu yn aelod ffyddlon yng nghapel Jerusalem. Yn blentyn mynychodd Ysgol Dolbadarn ac wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i Gopa'r Wyddfa hyd nes y daeth i oed i gael ei hyfforddi yn nyrs yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, lle bu iddi gyfarfod â Brian, bachgen o Abersoch. Wedi priodi ymgartrefodd y ddau yn y fflat uwchben siop Joe Brown, Stryd Fawr, Llanberis. Ganwyd iddynt dri o blant, Mitzi, Eric a Mandy. Yn y flwyddyn 1969 ymfudodd y teulu i Awstralia lle ganwyd mab arall, Michael, iddynt. Unwaith yn unig y daeth Rose adref i Gymru a hynny yn y flwyddyn 1992. Ni wnaeth gartrefu o gwbl yn y wlad bell, yn Llanber yr oedd ei chalon hyd y diwedd. Cwsg yn dawel, Rose.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r plant, Mitzi, Eric, Mandy a Michael a'u teuluoedd draw yn Awstralia ac â'i chwirydd Mary, Nora, Christine a Meira a'i brawd Gari yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

Ffair Arbed Ynni

Sadwrn 24, Tachwedd 2018, 9.30-1.30,

Neuadd Ogwen, Bethesda

Cynhelir ail Ffair Arbed Ynni ym Methesda mis Tachwedd hwn, a chroesewir pawb i ddod draw am sgwrs ac i gael gweld beth sydd ymlaen. Bwriad y ffair yw dod â phobl at ei gilydd sy'n frwdfrydig dros arbed ynni yn ein cartrefi, ein busnesau a'n bywydau. Trefnir y ffair gan brosiect Cyd Ynni sy'n gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol yr ardal, a chlwb Ynni Lleol Bethesda.

Bydd nifer o stondinau lle gallwch gael cyngor am sut i arbed ynni ac arbed arian yr un pryd. Efallai eich bod yn gymwys i gael grant i wella eich system gwres, neu eich insiwleiddio, ac felly lleihau eich biliau. Dowch i siarad efo Nyth, neu efo'r Wardeiniaid ynni.

Os hoffech chi wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn lleol gyda chynlluniau ynni cymunedol (neu hyd yn oed yn awyddus i gymryd rhan), cewch siarad efo un o gynrychiolwyr Cyd Ynni, Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Lleol ac eraill.

Hefyd cewch wybodaeth am osod ynni gwyrdd yn eich cartrefi eich hun, a bydd gweithgareddau yn cynnwys gwneio nadroedd drafft neu weld efo camera isgoch lle mae'r gwres yn dianc o adeiladau'r Stryd Fawr!

Gobeithiwn hefyd ddechrau Caffi Trwsio, sef caffi efo'r cyfle i ddod â phethau i'w trwsio sydd wedi colli eu sglein neu sydd wedi torri. Bydd gwirfoddolwyr yn rhannu eu sgiliau trwsio (dillad, dodrefn, offer trydanol, ffônau etc), a bydd yn gyfle i fusnesau lleol sy'n dal i drwsio pethau hefyd. A llai o stwff yn mynd i'r tomennydd sbwriel!

Yn bennaf oll, mae'n gyfle gwych i gyfarfod pobl eraill sydd isio dysgu sut medrwn ni fyw yn fwy effeithlon, i rannu tips a phrofiadau, ac i gael syniadau newydd am be arall fedrwn ni ei wneud i helpu ein planed.



Mrs Margaret Ellen Jones

Teyrnged yn ei hangladd gan ei ffrind, Elizabeth Snowden Yr oedd Margaret Ellen a minnau yn ffrindiau bore oes er pan oeddem ni yn chwech oed a pharhaodd y gyfeillgarwch hyd at ddydd ei marwolaeth. Er y gwyddwn fod cyflwr iechyd Margaret yn fregus ac yn dirywio, pan ddaeth y neges ei bod wedi marw yr oedd yn dipyn o ergyd i mi.

Cofiaf yn dda am gyfnod ein plentyndod yn Neiniolen. Roedd Capel Ebenezer yn bwysig iawn iddi hi a minnau. Cofiaf pan ofynnwyd i ni fynd o amgylch cartrefi yn y pentref i gasglu arian ar gyfer y Genhadaeth, yr arian i fynd tuag at blant difreintiedig yn India. Os oeddem wedi casglu y swm o ddeg swllt yr oeddem yn derbyn llyfr gan ein gweinidog ar ddiwedd y Gwasanaeth. Yr oedd Margaret yn awyddus iawn i gael llyfr. Roedd ganddi bron ddigon o arian ond fe benderfynom ni fynd i lawr i Glwt y Bont i weld a fuasai fy Meddyg teulu yn fodlon rhoi cyfraniad i ni. Gan mai Gwyddel oedd y Meddyg doedd Margaret ddim yn rhy hapus i ofyn iddo am arian yn Saesneg ond beth bynnag fe welodd fod yma gyfle i gael cyfraniad. Dyma beth ddywedodd Margaret,

"You see Dotor we are collecting for a penny or two for the children in India to live." A dyma gael hanner coron. Roedd Margaret ar ben ei digon gan wybod y bydde hi yn derbyn llyfr gan y diweddar Barchedig Llewelyn Boyer.

Dro arall yr oeddem yn chwarae ar graig fechan uwchben Caeau Uchaf pan ddaeth rhyw Saeson heibio ac mae'n debyg ein bod yn edrych braidd yn flêr pan ddywedodd un wrth y llall, "Look at the state of these poor children." A dyma Margaret yn troi atynt ac yn dweud yn reit siarp, "We are not poor children we have a swper chwarel every night and a big dinner on Sunday." Er bod arian yn brin yn y cyfnod yna gan mai plant i chwarelwyr oedden ni, yr oeddem yn ystyried ein bod yn ffodus iawn ac yn fwy na dim nid oeddem wir mewn angen.

Fel y rhai oedd yn adnabod Margaret yr oeddent yn gwybod faint yr oedd ei chartref yn ei olygu iddi. Roedd y tŷ fel pin mewn papur a dim llwch yn unlle a phopeth yn ei le. Roedd ei gofal am Ernie a Jennifer yn fawr ac yr oeddynt yn golygu llawer iawn iddi. Yn ystod ein plentyndod doedd dim gwell gan Margaret na mynd i chwarae 'tŷ bach' yng ngardd gefn fy modryb yn Glanrhydfadog a dyna lle byddai yn golchi y llechi a hen lestri. Roedd hyn yn arwydd o sut roedd ei chartref yn mynd i edrych wedi iddi briodi.

Yn ystod y cyfnod pan oeddwn yn byw yn Lerpwl roedd Margaret wrth ei bodd yn dod draw i aros, a rhan bwysig iawn o'r ymweliad oedd i mi fynd gyda hi o amgylch y siopau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyn dechrau cyfnod ei salwch, yr oeddem yn cyfarfod yn Llandudno. Nid oedd wythnos yn mynd heibio heb i ni gael sgwrs am oddeutu awr ar y ffôn. Pan fyddai fy mab gartref a hithau'n amser i ni gael cwpanaid o de, os byddai y ffôn yn canu Margaret a oedd yn galw dyma beth fyddai John, y gŵr, yn ddweud wrth fy mab, Matin, "Well you have had it now for your cup of tea, they will be talking for at least an hour."

Mae'r misoedd diwetha wedi bod yn rhai anodd iawn a does dim diwrnod yn mynd heibio heb fy mod yn meddwl amdani. Diolchaf am gyfeillgarwch arbennig iawn.

Eglwys Crist Ar fore Sul, Medi 23ain bedyddiwyd yr efeilliaid Isaac Lyn ac Elspeth Rhodd, plant Heledd Wyn a Nathan Tandy, Cae Corniog Bach, Penisarwaun. Daeth tyrfa dda ynghyd o Lundain, Caer a gwahanol rannau o Gymru. Y rhieni bedydd oedd Alaw Holland, Gethin Griffith, Rhia Lloyd, James Tandy, Christine Hibbert, Glesni Fflur, Huw Foulkes a Trystan Ellis Morris. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Canon Idris Thomas, Glanrafon, a darllenwyd gan Gareth Bufton. Yr organyddes oedd Annette Bryn Parri. Roedd y casgliad at waith yr Ysgol Sul yn Eglwys Crist. Cafwyd gwledd hyfryd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis i ddilyn.

Eglwys Crist Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Crist ar brynhawn Sul, Hydref 21ain, a daeth tyrfa dda ynghyd. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno'n brydferth a diolchir i bawb am roddion yr Ŵyl.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Canon Robert Townsend a'r organyddes oedd Mrs Eleri Bean. Croesawyd Archddiacon Bangor, Yr Hybarch Mary Stallard, yn gynnes iawn a chafwyd anerchiad arbennig ganddi. Bu'n sgwrsio â'r aelodau ac roedd wrth ei bodd yno. Cafwyd eitemau gan blant yr Ysgol Sul a diolchir iddynt am eu cyfraniad arferol ac i'r athrawon hefyd. Dosbarthwyd tocyn llyfr i bob plentyn am eu presenoldeb eleni ac ar ben hynny cyflwynwyd Cwpan Coffa Lowri Pritchard am ei phresenoldeb i Efa Jên Jones. Yr ystlyswyr oedd Len Jones a Darryl Williams

Newyddion Fel y gwelwch, digon prin yw hanesion Deiniolen unwaith eto mis yma. Mi fyddwn yn ddiolchgar am unrhyw newydd, mawr neu fach, er mwyn ei gyhoeddi yma yn yr Eco.

Diolch Hoffai Sylvia Jones, 4 Rhos Marian, Deiniolen, ddiolch i'r plant a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cymdeithas Lenyddol Deiniolen Mae'r Gymdeithas wedi ail gychwyn ar ôl seibiant byr. Cafwyd y cyfarfod cychwynnol yn ystod mis Medi ble cafwyd sgwrs am hanes Cau Tiroedd Comin Llanddeiniolen gan Glyn Llewelyn, yna i ddilyn yn ystod mis Hydref cafwyd sgwrs o dan y testun 'Teithio tu ôl i'r Gân' gan Mr Arwel Jones, neu Arwel Hogia'r Wyddfa, i'r mwyafriif ohonom. Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Lun, Tachwedd 26ain, pryd y bydd Mr Keith Jones yn cynnal noson ar y testun '100 Keith: Myfyrio ar y mynydd'. Mae croeso i unrhyw un ymuno.

Gwaith Cynnal a Chadw Hoffai'r Cynghorydd Elfed Williams ddiolch i adran priffyrdd Cyngor Gwynedd am eu gwaith diweddar yn trwsio tyllau a thwtio lonydd Pentref Helen. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd hefyd wedi bod yn brysur yn gosod tarmac newydd ar hyd y lôn am fodur dai Rhydfadog a mawr yw ein diolch iddynt hwythau hefyd am y gwaith.

Diolch Dymuna Jason, Steffan, Ffion, Jackie, Nellie, Owen, Idris a theulu estynedig y ddiweddar Lynne Warner ddiolch o waelod calon i deulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a dderbyniwyd ac a werthfawrogwyd yn eu colled enfawr.

Diolch yn arbennig i'r gweinidog, Y Parch John Pritchard, am y gwasanaeth teimladwy ar ddydd yr angladd ac i Reuben, Gwyn, Sandra ac Annette am eu cyfraniad i'r gwasanaeth yn yr eglwys.

Diolch i E.W. Pritchard Cyfarwyddwyr Angladdau Llanberis, am eu gwasanaeth trylwyr ac urddasol. Fe dderbyniwyd swm sylweddol o arian er cof am Lynne i gronfa Crohn's a Colitis ac i Cystic Fibrosis. Diolch i bawb.

GERAINT OWEN **CARPEDI** **CARPEDI**

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

Diwedd Pennod Yn Hanes Addoldai Deiniolen

Yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf, gwelwyd cau bob un o addoldai anghydfurfiol Deiniolen a Chlwt y Bont. Yng Nghlwt y Bont, cauwyd Capel Maes y Dref a Chapel Ysgoldy. Yn fwy diweddar, cauwyd Capel Libanus. Yna yn Neiniolen, gwelwyd cau Disgwylfa; Tabernacl, a Chefnywaun – gan adael dim ond Ebeneser ar ôl.

Yn 2017, ceisiwyd gwerthu 'capel' Ebeneser yn unig – a hynny'n aflwyddiannus. Ond ar 11 Hydref 2018, llwyddwyd i werthu'r capel a'r festri. Rhaid pwysleisio na fydd y broses gyfreithiol o arwyddo cytundebau wedi ei gwblhau tan mis Tachwedd.

Er mai isel iawn yw'r niferoedd sy'n mynychu oedfaon erbyn hyn, roedd aelodau Ebeneser a Chefnywaun yn awyddus iawn i ddod o hyd i gartref newydd i bwrpas addoli ar y Sul. Mae'r croeso gan aelodau, swyddogion ac offeiriaid Eglwys Crist Llandinorwig wedi bod yn un arbennig iawn. Yn Eglwys Crist y cynhelir y rhan fwyaf o wasanaethau angladdol yr anghydfurfwrwr erbyn hyn.

Ar 21 Hydref 2018, cynhaliwyd oedfa aelodau Ebeneser a Chefnywaun yn Nhŷ Elidir – sydd wedi ei leoli ar Stryd Fawr, Deiniolen. Y Parchg John Pritchard oedd yn arwain y gwasanaeth. Ar ddiwedd y gwasanaeth, mynegodd yr aelodau ddymuniad i barhau i addoli yn Nhŷ Elidir pan na fydd festri Ebeneser ar gael iddynt. Menter Fachwen yw tenantiaid Tŷ Elidir, ac mae'r Fenter wedi sicrhau les tymor hir gan Gyngor Gwynedd. Dymuna aelodau Ebeneser a Chefnywaun ddiolch i Brif weithredwraig Menter Fachwen, a'i staff, am bob cydweithrediad i sicrhau cartref modern a chynnes i bwrpas addoli ar y Sul.

Diwedd pennod yn hanes addoldai efallai, ond dechrau pennod newydd mewn cartref newydd.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod y gangen leol ar Fedi 24ain yn y Ganolfan Gymdeithasol Llanberis cafwyd cwmni Simon Bower o gwmini Morgan Evans. Treuliwyd noson ardderchog yn ei gwmini yn prisio hen bethau.

Ar Fedi 26ain cafodd nifer o'r aelodau gyfle i fwynhau trip i Lerpwl. Cafwyd amser i ymweld â'r siopau ac yna i'r Amgueddfa i weld y 'Terracota Army' – arddangosfa gwerth ei gweld. Mwynhawyd y diwrnod yn fawr gan bawb.

Cynhaliwyd Cyngor Hydref Ffederasiwn Grŵp Eryri ym Mhorthmadog. Noson o hanes ysbrydion a gafwyd dan ofal Huw Hughes. Gyda chymorth lluniau 'Power Point' adroddwyd hanesion am ysbrydion yr ardal yn ddi-ddorol a chyffrous iawn.

Yng nghyfarfod y mis nos Iau, Hydref 18fed, Jessica Eade oedd y wraig wadd. Cyflwynodd ei hanes yn datblygu distyllfa jin yn Ninorwig. Fe roddodd ei swydd i fyny fel seicolegydd clinigol i ddilyn ei breuddwyd. Eglurodd sut y dechreuodd y busnes a sut y datblygodd y fenter dan yr enw Jin Llechen Las yn fusnes llwyddiannus. Roedd yn werth gwranddo ar yr hanes llawn brwdfrydedd.

Edrychwn ymlaen i Swper y Cynhaeaf nos Lun, Hydref 22ain, yn y Ganolfan Gymdeithasol Llanberis dan ofal y Ffederasiwn.

Mis Tachwedd cawn ein Cyfarfod Blynyddol a blas ar ddsygu Carol Blygain yng nghwmni Arfon Gwilym.

Ar Ragfyr 3ydd cynhelir Noson Lawen dan nawdd Grŵp Eryri yng nghwmni Côr Cadwyn yn y Clwb Cymdeithasol Llanberis. Bydd hon yn noson arbennig i godi arian at Ymchwil Cancr er cof am ddwy o gyn-aelodau y Grŵp – y ddiweddar Mrs Eira Crocombe, Sefydliad Llandygai, a Mrs Janice Jones, Sefydliad Pontrug. Fe fydd hon yn noson agored i bawb ymuno gydag aelodau Sefydliad y Merched..

Yy Eglwys Bresbyteriaid

Oedfa Ddiolchgarwch. Er gwro o hen ddyddiad yr Wyl Ddiolchgarwch fe barhawyd â'r traddodiad o neilltuo oedfa arbennig o ddiolchgarwch ar nos Sul, Hydref 7fed. Cafwyd gwasanaeth bendithiol ar y testun 'Ymhob peth diolchwch' dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

Cyfarfod Hyfforddiant Dan nawdd yr Eglwys Bresbyteriaid bu i Gwyn Hefin Jones a Lowri Prys Roberts fynychu cyfarfod ym Merea Newydd, Bangor ar Hydref 11eg i ymglyfarwyddo â'r rheolau mae'n rhaid i eglwysi weithredu arnynt mewn ymateb i'r Ddeddf Gwarchod Data a ddaeth i rym fis Mai eleni. Fel eglwys leol bydd angen ymateb i'r ddogfen 'Rheolau Diogelu Data i Eglwysi' mewn perthynas â defnyddio data personol aelodau fel rhan o waith yr eglwys.

Cyfarfod Comisiynu Gweithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd Nos Iau, Hydref 18fed, yng Nghanolfan y Capel, Caeathro, dan nawdd Cynllun Efe, Capel Caersalem Caernarfon a Scripture Union cynhaliwyd Cyfarfod Comisiynu Susan Williams, Ceunant, Llanrug, fel Gweithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd yn ein plith yn y fro. Fel un sydd wedi cefnogi Cynllun Efe o'r cychwyn dymunwn bob bendith a chefnogaeth i Susan yn ei gwaith.

Oedfaon Tachwedd am 5 yr hwyr

- 4 Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
- 11 Parch Cath Williams, Caernarfon
- 18 Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
- 25 Mr T. Alun Williams, Caernarfon

POSH PAWS 

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwyg
7.00pm ac 11.00pm



Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Medi oedd: £30: Olwen Owen, 23 Tref Eilian; £20: Raymond Edwards, Felin y Wig; £10: Shirley Parry, 8 Pant y Waun.

Enillwyr mis Hydref oedd £30: Sara Davies, Bryn Eglwys; £20: W.M. Catt, Awel y Môr; £10: Lesley Williams, 4 Tŷ Hen.

Dymuna Pwyllgor y Ganolfan ddiolch o galon i Dewi Jones, Dôl y Coed, am reoli a threfnu'r Clwb 300 am 38 o flynyddoedd. Ymddeolodd o'r swydd ddiwedd mis Medi. Carys Owen, Glyn Awel, yw'r trefnydd newydd a byddai'n falch o dderbyn aelodau newydd i'r Clwb. Diolch i Carys am wirfoddoli i gymeryd y swydd.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod y Sefydliad ar Hydref 4ydd croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Anita Longo Frynrefail, ein gwraig wadd am y prynhawn. Cawsom amser difyr iawn yn ei chwmmi yn egluro inni sut i wneud cardiau ar gyfer gwahanol amgylchiadau. Yna cyfle i'r aelodau wneud cerdyn eu hunain. Pawb yn falch o'i gerdyn! Enillwyd y raffl oedd wedi'i roi gan Iris, gan Margaret. Bydd y cyfarfod Blynnyddol y mis nesaf ar Dachwedd 1af.

Merched y Wawr Am 7.30 o'r gloch nos Iau, Medi 27, daeth aelodau y gangen at ei gilydd yn y Ganolfan i gyfarfod cyntaf tymor 2018-19. Cafwyd croeso cynnes gan y Llywydd, Anita Myfanwy, ac ymddiheurodd dros yr aelodau oedd yn methu dod oherwydd trefniadau personol. Roedd y ddwy drysoryddes, Pat a Menna, yn brysur yn casglu'r tâl aelodaeth a'r arian paned a raffl, a Glenys yn rhannu Y Wawr, cylchgrawn y mudiad ac roedd Carys ac Iris yn brysur yn y gegin. Diolchodd Anita iddynt i gyd ac i Heulwen, yr ysgrifenyddes, am raglen ddiddorol am y flwyddyn ac i Janet am adroddiad ariannol fanwl 2017-18.

Llongyfarchwyd Brenda a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ac hefyd Alma a Rob ar ddathlu pen-blwydd priodas arbennig. Cydymdeimlwyd â Heulwn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli

Ann, chwaer annwyl Heulwen. Cafwyd cyfle i sgwrsio ymysg ein gilydd ac i fwynhau lluniaeth ysgafn a blasus wedi ei baratoi gan y pwyllgor. Diolch iddynt. Enillydd raffl gyntaf y tymor a roddwyd gan Heulwen oedd Bethan, ei chwaer yng nghyfraith!

Derbyniwyd llythyr ar ran Hosbis yn y Cartref Gwynedd ac Ynys Môn yn diolch am y cyfraniad ariannol a dderbyniasant gennym wedi i Carys a Iris gymryd rhan yn y ddwy awr o dawelwch a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, ac yno hefyd y cynhaliwyd y Ffair Haf. Mae y rhoddion ariannol yn gymorth i'r elusen gynnal eu gwasanaeth Nyrsio Cartref, eu Canolfan Hosbis Dydd a'u Clinigau Therapi Cyflenwol.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 o'r gloch nos Iau, 25 Hydref, yn y Ganolfan pryd y cawn 'Noson o wneud addurniadau Nadolig' yng ngofal Pat Jones, Brynrefail. Mae croeso mawr i aelodau newydd.

Garddio Ar y teledu os Lun, Medi 24, gwelwyd dipyn o erddi taclus y pentref wedi i gamera y rhaglen deledu Garddio a Mwy deithio ar y ffordd fawr drwy'r pentref. Roedd Sioned Edwards, y gyflwynwraig, a rhai o dîm y rhaglen yng ngardd Teganedd yn sgwrsio a ffilmio gyda Iola, yn didoli a phlannu planhigion fel ei bod yn haws i Guto allu eu trin. Wedi cyfnod o arddio caiff eistedd ar gadair gardd i edmygu a mwynhau ei waith a'i ddiddordeb yn yr ardd.

Storm Callum

Diwedd yr ail wythnos o fis Hydref daeth Storm Callum gyda'r glaw trwm a'r gwynt cryf yn hyrddio popeth o'i flaen. Bore Sul roedd ei hôl i'w weld yn glir. Twmpathau o ddail a brigau coed ymhob cornel a choed, rhai mawr a thrwm, wedi eu codi o'r ddaear a'u chwythu dros y cloddiau a thrampolins i'w canlyn. Hyderwn yn fawr bod y llifio a'r sgubo wedi dod â threfn yn ôl, a'n diolch mawr yw na chafodd neb anaf.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Chloe Warbey, 8 Ael y Bryn, ar

gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis. Gobeithio i ti fwynhau y dathlu a dymunwn y gorau i ti i'r dyfodol.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n llongyfarchiadau i Nance Hughes, Stad Croes y Waun, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Cawsom gyfle i ddathlu yng nghwmni eich dwy ferch, Nia, llied a'r teulu a ffrindiau.

Babanod Bach Newydd Llongyfarchiadau i Catrin ac Ian, Talmaen, ar enedigaeth eu merch fach, Erin. Hefyd croesawn chi, deulu bach, i'r pentref. Gobeithio y byddwch yn hapus yma.

Ganwyd mab bach, Gruffydd, i Osian a Sian sydd yn byw yng Nghricieth. Wyr cyntaf i Ann a Morus Elfryn, Coed Gwydryn, a chefnder newydd i Lili a Nansi a Betsan a Cadi.

Merch fach, Enlli Lois, a anwyd i Llŷr a Sian, Stad Tŷ Hen, wyres fach i Carys a Steve, Ty'n Cae, a chyfnither i Ana.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd i gyd a chroeso i'r rhai bach. Bydd y cyfnitherod wrth eu bodd yn helpu gyda'r magu.

Dymuno yn Dda Mae rhai o'r pentref yn ymarfer yn galed er mwyn cystadlu yn ras Marathon Eryri ddiwedd mis Hydref. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch.

Dymuno Gwellhad Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da am wellhad buan i Janice, Bryn Menai, wedi iddi lithro a syrthio a thorri ei dau arddwrn. Mae'n dda deall bod ei phriod, Elfed, yn gwella yn dda wedi iddo dderbyn triniaethau mewn ysbyty yn Blackpool.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Nia Llwyd, Stad Tŷ Hen, wedi iddi gael triniaeth pen-glin yn Ysbyty Gwynedd. Cofion cynnes atat, Nia.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref o'r ysbyty i Mary, Llwyn Afon, wedi iddi dderbyn gofal yno am bedwar diwrnod. Mae'n braf eich gweld yn gwella, Mary, ac yn ôl yn ein mysg.

Anfonwn gofion cynnes hefyd at fam Nora (garej Pant Waun gynt) wedi iddi dderbyn llawdrinaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Croesawyd Paul Evans yn ôl i'r set fawr yn y capel wedi iddo fod ddim yn dda yn ddiweddar.

Derbyn Triniaeth Anfonwn ein cofion cynnes at Haydn, Rhandir Mwyn, sydd yn derbyn triniaeth achlysurol yn yr ysbyty ym Mangor.

Diolch Dymuna Heulwen a theulu Hafod y Rhug Uchaf ddiolch o galon am y rhoddion, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn colli ei chwaer, Ann, yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Cydymdeimlo Oherwydd nad oedd yn dda ei iechyd treuliodd Sion Rhys, Pen Rhos a Becws y pentref gynt, gyfnod yng nghartrefi preswyl Plas Pen Gwaith a Phlas Garnedd, Llanberis, ac yna yng Nghartref Nyrsio Llantysilio, Ynys Môn. Ddechrau mis Hydref daeth y newyddion trist am ei farwolaeth. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i chwaer Carrie ac â'i frodyr, Rheon a Gwilym Morris, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn eu profedigaeth a'u tristwch o'i golli.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Emlyn Morris, 6 Stad Tref Eilian. Brawd i Richard a'i chwiorydd Llywela a Jean a'r ddiweddar Christeana; brawd yng nghyfraith Arnold a Charlie ac ewythr hoff i'w nithoedd Bethan, Valerie ac Erin a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi ac â'i ffrindiau yn eich profedigaeth a'ch colled.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Tachwedd

4: Parch Eric Jones, Bangor

11: Dafydd Charles Thomas, Llanfairpwll

18: Wedi llenwi (A.O.)

25: Dafydd Iwan

Rhag 2: Cyfarfod yr Aelodau.

Parhad WAUNFAWR

Ysgol Waunfawr

Nosweithiau Rhieni Tymor yr Hydref Braf yw cael datgan bod bron pob un rhiant wedi mynychu y nosweithiau rhieni y tymor hwn. Cynhelir Noson Tric a Chlic i rieni y dosbarth Meithrin a Derbyn nos Fawrth, Tachwedd y 6ed, am 6.30 yr hwyr yn neuadd yr ysgol.

Ymweliad â Chanolfan Darganfod Legoland Manceinion Cafodd Dosbarth Mynydd Grug blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod gwerth chweil ym Manceinion. Roedd pob un disgybl wedi mwynhau yn arw ac wedi dysgu llawer am Lego.

Cadw Cymru'n Daclus Diolch i Daniel o Cadw Cymru'n Daclus am gynnal gweithdy gyda'r Adran Iau ddiwedd mis Hydref. Bu i'r disgyblion gael cyfle i gasglu sbwriel o amgylch y Ganolfan.

Noson Gofrestru yr Urdd Cynhaliwyd noson gofrestru yr Urdd drwy gael disgo Calan Gaeaf cyn yr hanner tymor. Diolch i Dafydd Llwyd am gynnal y disgo. Roedd pawb werth eu gweld yn eu dillad calan gaeaf.

Llongyfarchiadau mawr i'r Tîm Rygbi am ennill Tarian Twrnamaint Rygbi Morgan Parry ar y Morfa yng Nghaernarfon cyn yr hanner tymor.

Ysgol Brynrefail Bydd plant blwyddyn 6 yn ymweliad ac Ysgol Brynrefail ddechrau Tachwedd. Dymunwn yn dda iddynt dwi'n siŵr y bydd pob un ohonynt yn mwynhau y profiad yn fawr ac yn edrych ymlaen i'w hymweliad nesaf yn nhymor yr haf.

Gwasanaeth Dydd y Cofio Bydd disgyblion blwyddyn 6 yn cynnal gwasanaeth Dydd y Cofio wrth y Gofeb fore ddydd Gwener, Tachwedd y 9fed. Estynnwn goeso cynnes i drigolion y pentref i ymuno gyda ni am 10.45y bore.

Diolchiadau Hoffem ddiolch i Mrs Susan Williams a Gweithiwr Plant Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe am gynnal gwasanaethau gyda'r Adran Iau yn ystod y tymor.

- Diolch i Nyrs Jackie a Nyrs Jo am ddod i sgwrsio am eu gwaith gyda disgyblion Mynydd Mawr a Moel Eilio blwyddyn 1 a 2.

- Diolch hefyd i Mr John Dilwyn o'r Gwasanaeth Archifdy am gynnal dau weithdy hanes gyda dosbarth Yr Wyddfa a Chefn Du. Bu'n trafod ysgolion yn Oes Fictoria gyda blwyddyn 6 a bwyd yn y cartref gyda blwyddyn 5.

- Diolch i'r rhieni

Dymuniadau Gorau Hoffem ddymuno'n dda i Mrs Nia Griffith sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei phen-glin. Dymunwn wellhad buan iddi. Bydd Mrs Jacqueline Owen yn helpu yn y swyddfa dros gyfnod ei habsenoldeb.

Gwersi Nofio a Thennis Mae plant Blwyddyn 5 wedi cychwyn ar eu gwersi Gymnasteg tra bod Blwyddyn 3 ac 4 yn derbyn gwersi Nofio a Blwyddyn 6 yn derbyn gwersi Tennis yng Nghaernarfon. Mae plant blwyddyn 2 hefyd wedi cychwyn ar eu gwersi Nofio bob dydd Mercher.


Ailgylchu dillad Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Noson Ddarllen i Rien i Cyfnod Sylfaen Cynhelir Noson Ddarllen Cyfrif Trydar yr ysgol

- Cofiwch hefyd ddilyn digwyddiadau yr ysgol ar ein cyfrif "Trydar" (Twitter) @ysgolwaunfawr Bydd yr athrawon dosbarth yn anfon lluniau a gwybodaeth yn wythnosol, fel eich bod yn cael blas o'r gweithgareddau a ddigwyddodd yn y dosbarth dros yr wythnos.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof;

- Ni fydd ysgol i'r plant ddydd Llun, Tachwedd y 19eg, gan fod diwrnod hyfforddiant i'r athrawon.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Cynllun Ffrindiau Ffermwyr Ifanc Eryri



Yn ddiweddar lansiwyd 'Cynllun Ffrindiau' gan fudiad Ffermwyr Ifanc Eryri mewn ymdrech i sicrhau parhad a dyfodol llewyrchus i'r mudiad er gwaetha'r toriadau ariannol a brofwyd. Prif nôd Ffermwyr Ifanc Eryri yw medru parhau â'r gwaith da mae'r Ffederasiwn yn ei gyflawni i bobl ifanc Eryri rhwng 10 a 26 oed gan roi'r cyfleon gorau posib' iddynt a rhoi cyfle i ddysgu, cyflawni a chael hwyl drwy galendar gweithgareddau gorlawn o gystadlaethau a digwyddiadau.

Cost ymuno â'r Cynllun Ffrindiau yw £100 y flwyddyn neu, yn hytrach, mae modd talu £8.50 fel taliad misol. Rhestrir y buddion fel a ganlyn:

- Cerdyn Aelodaeth Cynllun Ffrindiau unigryw
- Sticer Car – 'Dwi'n Cefnogi CFFI Eryri – Ydych chi?'
- Ticed i 2 i'r Rali Sirol
- Ticed i 2 i'r Eisteddfod Sirol
- Cydnabyddiaeth yn Erwau Eryri a'r Adroddiad Blynnyddol o dan y Cynllun Ffrindiau
- Gwahoddiad i dderbyniad y Cadeirydd mewn Sioeau lleol

"Mae'n gyfnod newydd ar y mudiad" eglurodd Eleri Evans, Trefnydd Ffermwyr Ifanc Eryri, "a rhaid manteisio a cheisio meddwl am bob ffordd o sicrhau nad ydi pobl ifanc Eryri yn colli'r cyfoeth o brofiadau a sgiliau a gynigir iddynt gan y mudiad. Ymunwch â'r Cynllun Ffrindiau er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd".

Gellir cael ffurflenni ar gyfer ymuno â'r Cynllun Ffrindiau o Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri, Adeilad NFU, 19 Stryd Bangor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AT, Rhif Ffôn 01286 677513.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

**RHOSTIO
MOCHYN**

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiâu

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

**DEWGS MAE
O'N FLASUS**

**PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!**

Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Cronfa'r Ddafad Wyllt

A ninnau'n dathlu penblwydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol eleni, diddorol oedd derbyn galwad ffôn gan Mr Fred Williams, Bethel yn sôn am Gronfa Ysbyty Chwarel Dinorwig. Yn 1946 roedd yn brentis yn Iard y Gilfach Ddu yn ennill cyflog o £1-1-11 yr wythnos, ac yn cael punt a chwecheiniog i fynd adra. Ond unwaith y mis, roedd yn talu saith geiniog tuag at Gronfa'r Ysbyty. Yn ystod ei ail flwyddyn cafodd ei ethol yn Llywydd y Caban, ac yntau'n llefnyn ifanc. Ond mae'n ymddangos fod traddodiad ymhlith gweithwyr y Gilfach Ddu i godi rhai ifanc yn llywyddion – eu taflu i mewn yn y pen dwfn fel petae. Ac yn rhinwedd y swydd honno yr aeth ef a Iorwerth Williams (hefyd o Fethel) i gyfarfod yn Nghapel Mawr, Llanrug yn 1948 i gynrychioli tua cant o weithwyr y Gilfach Ddu. Pwrpas y cyfarfod oedd penderfynu beth oedd i ddigwydd i Gronfa Ysbyty Chwarel Dinorwig pan fyddai'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn cychwyn, gan na fyddai ei hangen mwyach.

Ni chafodd y llefnyn ifanc gyfle i siarad, ond mae'n cofio'r areithio a'r ddadl gan chwarelwyr profiadol o'r 'hen deulu', sef enw hogia'r Iard am y rhai a weithiai ar wyneb y graig. Enw'r chwarelwyr ar hogia'r Iard oedd 'blacs' neu 'lindys' (am mai nhw, yn eu barn, oedd yn bwyta'r elw a wna'r chwarel!)

Gan fod arian yng Nghronfa'r Ysbyty, roedd angen penderfynu beth i'w wneud a'r gronfa. Mae'n ymddangos mai'r farn gyffredinol oedd y dylid defnyddio'r arian ar gyfer triniaeth y ddafad wyllt – a hynny, wrth gwrs, gan 'Feddyg y Ddafad Wyllt'. Nid oedd y byd meddygol a oedd yn cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Iechyd newydd yn cydnabod hwn fel meddyg, ond roedd gwerin yr hen Sir Gaernarfon â ffydd ynddo i wella aflwydd y ddafad wyllt. Y bwriad oedd defnyddio arian i dalu i chwarelwyr ac aelodau eu teulu i gael triniaeth at y ddafad wyllt, gan gynnwys costau teithio i Lŷn.

Yr oedd Cronfa'r Ddafad Wyllt yn bodoli yn y fro, ond tybed a gafodd ei sefydlu yn dilyn diddymu Cronfa'r Ysbyty?

Teulu Rhiw Goch

Gyda diolch i Margaret Roberts, Caernarfon (Brynrefail gynt) am gysylltu gyda mwy o wybodaeth am Rhiw Goch, Clwt y Bont. Gall hithau hefyd olrhain ei hachau i'r un cyfeiriad. Priododd ei hen, hen hen daid – Morris Thomas efo Dorothy Owens, Rhiw Goch yn 1773. Arhosodd y mab hynaf, Thomas Morris, yn Rhiw Goch, a thylia Margaret mai un o'i ddisgynyddion ef a fagodd Ruth Williams. Aeth brawd i Thomas Morris, sef William Morris i gadw Tŷ Capel Ysgoldy, a'i ferch yntau, Elin Morris a briododd Henry Hughes, Gors, Clwt y Bont. Eu merch hwythau, Margiad Hughes a briododd John Closs Parry, Fachwen, ac yn ôl Margaret, mae nifer o'u wyrion a'u wyresau yn parhau i brynu'r "Eco", gydag un ohonynt – Norman Closs Parry yn cyfrannu'n rheolaidd.

Mae'n syndod fel mae llinynnau'r gorffennol yn parhau i'n clymu gyda'n gilydd yn y presennol.

Evan Parry, Dinorwig a Seland Newydd



Roedd y llun wedi ei roi drwy fy mocs llythyrau, yn nodi mai dyma'r adeilad a enwyd ar ôl Evan Parry yn Dunedin, Seland Newydd. Gyda diolch i Alice. Ceisiais gysylltu ar y rhif ffôn, a gadael neges, ond dim ymateb!

Gallt y Foel

Gyda diolch unwaith eto i Hywyn Williams am fwy o wybodaeth ynglŷn â theulu Gallt y Foel. Ganed tri mab i William Robert ac Ellen (Nel) Jones, sef Robert David (8 2 1911), John Emrys (12 12 1912) a Joseph (1 10 1915). Ifanc iawn felly oedd y bechgyn pan laddwyd eu tad ym mis Medi 1918.

Mae ei farwolaeth yn cael ei gofnodi ar fedd ei fam a'i dad yn Eglwys Llanddeiniolen: Robert Jones a fu farw 1901 ac Ann Jones a fu farw 1923.

Mae ei wraig, Nell Jones, wedi ei chladdu gyda'i mam a'i thad ym Macpelah, gyda'r llinell 'Ti a geraist fyw'n garedig' ar y garreg fedd. Dywedir iddi farw ar 25ain o Fawrth 1956, "Cynfi Terrace gynt". Mae llyfr claddu'r fynwent yn nodi "Lerpwl, late of Cynfi Terrace." Mae'n bosib felly ei bod yn byw gydag un o'r meibion yn Lerpwl pan fu farw.

Yr Arddlas

Dyma enw na chlywais erioed o'r blaen yn yr ardal hon. Mae'n ymddangos mai yma y bwriadwyd adeiladu Ysgol Cwm y Glo, ond i'r safle presennol gael ei ddefnyddio oherwydd fod mwy o dir ar gael. Felly, ble roedd/mae Yr Arddlas?

Chwilio am Deulu

Derbyniwyd y neges hon rhag ofn fod cysylltiadau yn y fro.

A oes gennych wybodaeth am ddisgynyddion William Cyril Jones a John Idris Jones . Ganwyd y ddau tua 1920-1930 yn Aberystwyth. Ganed eu tad Daniel George Jones (Chiefengineer) tua 1885 yn Aberystwyth. Roedd gan y ddau frawd blant : Gareth Jones, Myra Wyn Jones a Sulaned Jones. Mae gennyf gasgliad helaeth o luniau teuluol Daniel George Jones. Byddai 'n braf rhoi 'r lluniau yn ôl i berchnogaeth y teulu. Cysylltwch â mi. nonna. owen@btinternet.com

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

AC ARFON A'I STAFF YN GWISGO PINC DROS GANSER



Roedd Dydd Gwener, Hydref 19eg yn ddiwrnod yr elusen 'Breast Cancer Now' i godi ymwybyddiaeth o'r angen am ymchwil i ganser y fron a chynnal y diwrnod Wear It Pink, a chefnogwyr y diwrnod yn gwisgo pinc i'r gwaith, i'r ysgol neu allan yn y gymuned.

Dywedodd Siân Gwenllian AC:

"Canser y fron yw'r math mwyaf cyffredin o ganser o hyd yn y DU. Bob blwyddyn mae tua 11,500 o ferched ac 80 o ddyonion yn colli eu bywydau i'r afiechyd. Dyna pam yr wyf mor angerddol dros y diwrnod gwisgo pinc bob blwyddyn.


"Mae gwisgo pinc yn ffordd wych o ddod ynghyd â ffrindiau a theulu i gael hwyl wrth godi arian ar gyfer ymchwil hanfodol Breast Cancer Now. Mi ges i dynnu'n llun mewn gwisg go drawiadol efo Jules Peters, sydd yn gwybod ond yn rhy dda pam fod cyllido ymchwil canser y fron mor ofnadwy o bwysig. Ar ôl dychwelyd i fy etholaeth fe wnaeth ein tîm o staff swyddfa wisgo pinc i ddod i'r gwaith er mwyn nodi'r diwrnod pwysig yma."

Yn ymuno â nhw yng Nghynulliad Cymru yng Nghaerdydd oedd y seren roc o Gymru, Jules Peters, ynghyd â'i gŵr Mike. Mae Jules, a gafodd ddiagnosis o ganser y fron yn haf 2016, yn gobeithio y bydd pobl ledled Cymru a gweddill y DU yn ymuno â hi i gymryd rhan yn y digwyddiad codi arian,

Dywedodd Jules Peters, o band roc Cymru The Alarm:

"Wedi bod trwy ganser y fron fy hun, rwy'n falch iawn o fod yn cefnogi gwisgwch rywbeth pinc eleni, gyda fy ngŵr Mike - mae'n ddigwyddiad codi arian gwych sy'n dod â theluoedd, ffrindiau a chydweithwyr at ei gilydd i helpu ariannu ymchwil i'r clefyd ofnadwy yma, tra'n cael hwyl yr un pryd."

"Rwy'n hynod o angerddol am godi ymwybyddiaeth o'r clefyd, a rhannu fy mhrofiadau i helpu menywod eraill, sy'n gorfod wynebu diagnosis fel y gwnes i. Rhaid inni roi stop ar y clefyd ofnadwy hwn, a'r unig ffordd i wneud hynny yw trwy barhau i ariannu ymchwil hanfodol."



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Radio Cymru yn cofio diwedd y rhyfel

Mae'n anodd iawn dychmygu'r awyrgylch yng Nghymru gan mlynedd yn ôl. Roedd y Rhyfel wedi cipio cenhedlaeth gyfan o fechgyn ifanc gan adael teuluoedd mewn galar a'r rhai a ddychwelodd wedi gweld erchyllterau yn y ffosydd. Roedd na bobl oedd yn gwrthwynebu'r ymladd ac eraill oedd yn argyhoeddedig fod rhaid ymladd i'r eithaf i orchfygu'r Almaen. Roedd na rieni wedi eu siomi gan arweinwyr fel John Williams, Brynsiencyn oedd wedi tywys eu meibion i ryfel, ac roedd na bobl oedd wedi pydru byw mewn carchardai oherwydd eu gwrthwynebiad i'r ymladd. Yng nghanol hyn i gyd roedd pobl yn canu caneuon am eu profiadau cymysg gan ddefnyddio tonau cyfarwydd eu dydd. Roedd na ganu am hiraeth, am ddewrder, am gariad, am oferedd y cyfan a hyd yn oed am y margarine yr oedd yn rhaid dygymod ag o.

Er mwyn rhoi blas i ni ar y cyfnod y mae Radio Cymru yn atgyfodi rhai o'r caneuon hynny yn y rhaglen Rhyfelgan ddarlledir ar y 9ed a'r 11eg. Tachwedd. Bydd Cerddorfa Genedlaethol y BBC yn cyfeilio i Shan Cothi, Rhys Meirion a Trystan Llŷr Griffiths ac fe fydd Sian James yn canu rhai alawon gwerin yn ogystal. Ond er mwyn dod a'r profiad yn nes atom y mae rhai o gyflwynwyr Radio Cymru yn cyflwyno monologau arbennig o waith Aled Jones Williams er mwyn dod â phrofiad y milwr, y recriwtiwr, y fam, y gwrthwynebydd cydwybodol, y cariad, y newyddiadurwr, y nyrs a'r gwleidydd yn fyw i ni. Bydd yn brofiad newydd i Aled Hughes, Ifan Evans, John Hardy, Dafydd Meredydd, Lisa Gwilym, Dei Tomos, Nia Roberts, Caryl Parry Jones a Tudur Owen i gyflwyno cymeriadau amrywiol o 1918 y gallent uniaethu efo nhw. Ond y mae sawl un o'r cyflwynwyr yn ymwybodol o aelodau o'u teuluoedd a fu'n ymladd yn y rhyfel, y mae rhai wedi ymweld â beddau eu perthnasau yn Ffrainc. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Beti George.

"Bwriad y rhaglen ydi nodi canrif ers diwedd y rhyfel, a cofio cyfnod - mewn ffordd sydd yn ein gosod ni cyn agosed â phosib at brofiad pobl 1918," meddai Ynyr Williams, golygydd dros dro Radio Cymru, "gobeithio y bydd ein gwrandawyr sydd yn teimlo mor agos at ein cyflwynwyr yn cael eu gosod yng nghanol profiadau pobl ar ddiwedd y rhyfel drwy gyfrwng y rhaglen."

Darlledir Rhyfelgan am 10 ar y 9 Tachwedd ac am 11.30 ar yr 11 Tachwedd ar Radio Cymru.

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaeth Yr Holl Ardal

Ffoniwch ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



Gwellhad Buan Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlad Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at John, Alan a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Dennis Jones (Den Bonc), mab y diweddar Robert a Mair Jones, 1 Bont, Llanrug.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys St Mair bnawn Mawrth, Hydref 16. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Auriel a chafwyd gwasanaeth byr.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Pat, Nerys, Joyce, Margaret a Hilda. Daeth nifer fawr o'r pabis i law. Trafodwyd canmlwyddiant Undeb y Mamau Llanbeblig ym mis Tachwedd a'r Ffair Flodau mis Mehefin y flwyddyn nesaf.

Ar 20 Tachwedd bydd y cinio Nadolig. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel a diolchwyd iddi gan Marjorie ac enillwyd y raffl gan Dorothy.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Babi Newydd Llongyfarchiadau mawr i Ema ac Arwyn, 4 Craig y Don, ar enedigaeth Cadi Fflur ar y pedwerydd ar ddeg o Fedi, sef dydd pen-blwydd ei diweddar hen daid, Hubert. Mae Sioned Isfryn wedi dod yn nain am y tro cyntaf a Gwyneth, Bod Gwynedd, wedi dod yn hen nain. Y ddwy wedi gwirioni yn fawr.

Roedd Cadi yn pwyso dros wyth bwys ond, yn ôl a ddeallaf, nid yw'n lecio cysgu'r nos.

Llongyfarchiadau mawr ichi fel teulu gan ddymuno iechyd, bendith a phob hapusrwydd i'r dyfodol pryd y byddwch wedi anghofio y nosweithiau digwsg, a gofal Dad a Mam yn fwy na dim arall. Gwyn eich byd a Bendith Duw fo arnoch fel teulu.

Hanes yr Ysgol a'r Pentref

Ar ddydd Iau, 6ed o Ragfyr, cynhelir dwy sesiwn yn yr Ysgol Gynradd i ddathlu hanes yr ysgol a'r pentref.

Cynhelir sesiwn y pnaawn rhwng 1.30 a 3.30 gydag arddangosfa ac atgofion am yr ysgol. Mae croeso i chwi ddod a lluniau perthnasol i'r ysgol neu'r pentref gyda chi. Bydd cloch yr ysgol yn cael ei chanu i gychwyn a gorffen y sesiwn.

Bydd sesiwn y nos yn cychwyn am 7.00, gydag arddangosfa, sioe sleidiau a sgwrs fer. Y gobaith yw cael deunydd o'r Archifdy i'w ddangos hefyd.

Mae croeso cynnes i bawb ddod draw i hel atgofion.



Mrs Nia Glyn Oliver, pennaeth olaf Ysgol Cwm y Glo gyda Catrin Eleri Jones, Dolafon, y disgybl olaf.

Dyfodol Ysgol Cwm y Glo

Hoffwn gael y cyfle i egluro'r hyn sydd yn digwydd yn Ysgol Cwm y Glo, gan fy mod yn ymwybodol bod cryn siarad yn y gymuned.

Yn anffodus mae niferoedd disgyblion ar gofrestr yr ysgol wedi bod yn gostwng dros y blynyddoedd, ac yn sicr ers cyfnod euraid yr ysgol yn y nawdegau, o dan arweiniad Mrs. Mair Lloyd Hughes, pan roedd 100 o ddisgyblion wedi eu cofrestru. Mae nifer o resymau dros hyn, ac mae'n debyg bod gan bawb syniadau eu hunain, ond y gwir amdani yw nad oes llawer o blant oedran cynradd bellach yn y pentref. Mae'r teuluoedd sydd yma yn dewis mynychu ysgolion eraill.

Mae cyllideb ysgol yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr, yn ogystal â ffactorau eraill. Mae'r ysgol wedi bod yn derbyn arian gwarchodaeth gan yr Awdurdod ers sawl blynedd wrth i'r niferoedd ostwng, ac yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni, nid yw'n sefyllfa all barhau. Ar ddiwedd tymor yr haf cafwyd cyfarfod anodd rhwng aelodau o'r Corff Llywodraethu a'r Swyddog Addysg, ble daeth yn amlwg na fyddai'n bosib cynnal yr ysgol ar ôl Medi 2019, gyda rhagolygon niferoedd disgyblion yn gostwng i o dan 10. Cymerwyd y penderfyniad i fod yn gwbl agored gyda'r rhieni ac egluro'r sefyllfa iddynt; h.y. bod cyllideb i gynnal yr ysgol am y flwyddyn addysgol 2018 - 2019 ond byddai'n annhebyg gallu agor yn Medi 2019.

O ganlyniad, bu i'r ysgol agor yn Medi, wedi'r gwyliau, gyda 6 o ddisgyblion ar y gofrestr. Wrth i ddyddiau cynnar y tymor fynd heibio, daeth y rhieni i benderfyniadau anodd ac emosiynol i wneud ceisiadau i drosglwyddo eu plant i ysgolion cyfagos. Roeddynt yn amharod i wneud, yn ffyddlon i'r ysgol, ond yn gorfod meddwl am ddyfodol addysg eu plant, sy'n gwbl ddealladwy.

Ar ddydd Gwener, 13 Medi, 2018, gadawodd y disgybl olaf yr ysgol. Gyda'i hymadawiad, daeth holl draddodiad o genedlaethau o'i theulu o fynychu Ysgol Gymuned Cwm y Glo, i ben. Digwyddiad trist ac emosiynol i bawb.

Bellach, mae camau yn cael eu cymryd, gan yr Awdurdod, i gau'r ysgol yn swyddogol. Rhagwelir bydd hyn yn broses fydd yn cymryd tua blwyddyn i'w chwblhau. Yn y cyfamser, mae mwyafrif o staff yr ysgol wedi eu diswyddo, tra mae'r gweddill ohonom yn aros i roi trefn ar bethau, wrth i'r broses o gau'r ysgol symud ymlaen.


Wrth gwrs, wrth roi trefn ar bethau, mae hen luniau a hen ddogfennau yn dod ag atgofion yn ôl. Y bwrlwm, yr hwyl, y chwerthin a'r crio mae'r waliau wedi bod yn dyst iddynt dros y blynyddoedd. Rwy'n sicr pe byddai cyn disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned yn eu gweld - byddai hen atgofion yn cael eu hatgyfodi. I'r perwyl yna, cyn i bethau ddiplannu, mae Gareth Roberts, Menter Fachwen wedi bod draw i fynd trwy'r hen luniau gyda'r bwriad o gynnal diwrnod agored i'r gymuned, cyn i ddrysau'r ysgol gau am y tro olaf. Gobeithir trefnu hyn cyn y Nadolig. Felly, os oes gan unrhyw un ohonoch hen luniau o'r ysgol, ei disgyblion a'u gweithgareddau buaswn yn falch iawn o'u benthyg er mwy eu harddangos. (Cysylltwch gyda mi yn yr ysgol neu gyda Gareth ym Menter Fachwen.)

Wrth i'r newyddion ledaenu, mae hen ffrindiau'r ysgol yn cysylltu. Mae'n gysur clywed, heb eithriad, y sylwadau cadarnhaol o'r ysgol, yr ethos roedd pawb yn gweithio mor galed i'w gynnal, a'r croeso cynnes roedd pob ymwelydd yn teimlo roeddynt yn derbyn yma. Fe ddaw'r cyfle i gyfleu diolchiadau ffurfiol yn y man.

Gobeithiaf fod hyn yn rhoi crynhoad ac eglurhad o'r sefyllfa fel y mae yn bresennol. Mae'n gyfnod anodd a thrist ond rwy'n sicr, yn y dyfodol, daw'r gymuned i weld colli ysgol arbennig mae wedi bod yn fraint i'w gwasanaethu.

Yn gywir
Nia G. Oliver
Pennaeth

Diwedd Cyfnod



Dymuna Selwyn Morris ddiolch i'r holl gwsmeriaid ym mro'r "Eco" a thu hwnt, am eu cefnogaeth i'r busnes dros yr holl flynyddoedd.

Yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Hydref daeth yn ddiwedd cyfnod yn hanes pobi bara yng Ngwm y Glo. Cauwyd drws Becws Cwm am y tro olaf wedi hanner cant a dwy o flynyddoedd yng ngofal y Brodyr Morris. Prynwyd y busnes a'r becws ym mis Medi 1966 gan y brodyr Dafydd, Alwyn a Selwyn Morris. Bryd hynny, roedd y blawd yn cyrraedd Caernarfon ar y trêrn, a lori yn cario'r sachau 140 pwys i Gwm y Glo. Roedd ganddynt un fan mini i 'gario allan'.

O fewn llai na pum mlynedd, ac wedi denu mwy o gwsmeriaid, roedd eu bara gwyn yn ennill gwobrau. Daeth llawer mwy o wobrau i'w rhan dros y blynyddoedd am wahanol fara a chacennau. Datblygodd y busnes, ehangwyd y becws ac agorwyd siopau yn Llanberis a Chaernarfon.

Roedd eu dalgylch yn ymestyn i Fangor, Môn, Caernarfon a Phenygroes, gan gynnwys yr holl bentrefi o fewn y dalgylch. Roedd angen pump o faniau i 'gario allan' erbyn hyn.

Ymdeolodd Dafydd ac Alwyn o'r busnes, a Selwyn fu'n ei gynnal ers dros bum mlynedd. Bellach, penderfynodd yntau ymddeol. O edrych yn ôl dros gyfnod o fwy na hanner can mlynedd, yr hyn sy'n syndod o drist yw fod Selwyn yn cofio un ar bymtheg becws bach yn yr ardal yn y cyfnod hwnnw; y cyfan bron wedi diflannu bellach. A daeth oes 'Becws Cwm' i ben.

Roedd yr ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol yn dweud y cwbl am safon eu cynnyrch: "Ble cawn ni fara crystal rwan?" "Y gacan wy ora'n y byd!" ac ymlaen ac ymlaen... Ac ar nodyn personol, fydd yna byth eto dorth lojwr debyg i'w chael.

Blwyddyn arall o godi arian er cof



Dros y deuddeg mlynedd diwethaf mae Malcolm Pitts o Lanrug wedi bod yn codi arian er cof am ei wraig, Yvonne. Yn 1981, ychydig fisoedd wedi priodi, cafodd Malcolm ddamwain ddifrifol, ac Yvonne, ei wraig ifanc a fu'n pleidio gyda'r meddygon yn Ysbyty Walton, Lerpwl i beidio troi'r peiriant cynnal bywyd i fwrdd. Y hi fu'n gofalu amdano ar siwrnai hir i ddysgu siarad a cherdded yn ôl. Mae'n parhau i ddioddef o golli cof tymor byr. Ac yna cafodd Yvonne y newyddion ei bod yn dioddef o ganer, a Malcolm wedyn fu'n gofalu amdani hyd ei marwolaeth yn 2004. Eleni bu Malcolm yn codi arian i Uned Cancr Ward Alaw ac i'r Adran Ddamweiniau ac Argyfwng yn Ysbyty Gwynedd. Nofio a beicio yw'r patrwm blynyddol. Yn gynharach eleni nofiodd bymtheng milltir ym Mhwll Nofio Plas Menai a beicio 50 milltir yng nghwmni ei ffrind Darren Brame o Blas Menai.



Mae Malcolm yn hynod ddiolchgar i bawb fu'n gefnogol i'w ymdrech eto eleni. Hyd yn hyn mae dros £1,250 wedi ei gasglu i'r ddau achos, ac y mae croeso i unrhyw un gyfrannu ar safle www.justgiving.com/fundraising/malcolm-pitts3

Cyfarfod Comisiynu Gweithiwr Cynllun Efe Ar nos Iau, Hydref 18, yng Nghapel Caeathro daeth oddeutu hanner cant ynghyd i gomisiynu Susan Williams o Geunant, Llanrug, yn weithiwr i Gynllun Efe gyda'r Parchedigion John Pritchard a Marcus Wyn Robinson yn cyflwyno a chroesawu. Cafwyd darlleniad gan Menna Machreth ac i ddilyn cafwyd anerchiad gan Susan am natur ei gweledigaeth a'i hawydd i barhau i weithio i'r Cynllun.

Wedi 'r comisiynu cafwyd anerchiad gan y Parch Rhys Llwyd, Caersalem, Caernarfon, a diolchwyd i ferched Capel Caeathro am baratoi lluniaeth i ddilyn.

(Gweler ar Dud. 24 o Eco'r Wyddfa mis Medi fwy o hanes a phrofiad Susan gyda Cynllun Efe o'r cychwyn cyntaf.)

Gwasanaethau'r Capel

Ar ddydd Sul, Tachwedd 4ydd am 2.00: Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Ar y Sul, Tachwedd 18fed, am 2.00: Dafydd Iwan, Caeathro.

Gwellhad Deallwn fod y Parch Eric Roberts wedi derbyn llawdriniaeth yn ystod y mis a'i fod yn gwella. Dymuniadau gorau i chi.

Tynfa Misol Dyma ganlyniadau mis Hydref.

1af (36) £40: Sharon Thomas, 9 Rhes Glangwna; 2il (89) £25:

Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf;

3ydd (68) £15: Richard Jones, Ger y Tŵr; 4ydd (94) £5: Reg Chambers Jones, Hafod Wen.

Newid Gohebydd Braf yw cael dweud y bydd colofnydd newydd i newyddion Caeathro o Ionawr 1,

2019. Mae Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen, yn ferch ifanc, ddawnus ac ar ôl rhifyn y Nadolig danfonwch eich newyddion i lowriceiriog@hotmail.co.uk. Diolch yn fawr i ti, Lowri, am ymgymryd â'r gwaith.

Diwedd tymor yr haf Gwaethaf modd mae'r haf braf a gawsom yn prysur fynd o'r cof a Ffair Nant wedi bod. Mae yn hydrefol iawn erbyn hyn a'r dyddiau yn tynnu i mewn a'r nos yn mynd yn hwy. Amser troi'r cloc wedi pasio pan ddaw yr Eco o'r wasg. Mae'r stormydd yma ym Mhrydain yn cael enwau yn awr, rhywbeth a ddechreuwyd rhyw dair blynedd yn ôl. Yn nhrefn y wyddor gan ddefnyddio menyw a gwryw bob yn ail. Tro Callum oedd hi tua'r 11eg o Hydref lle y cafwyd andros o storm, y waethaf a welsom ers tri deg o flynyddoedd. Glaw a gwynt cryf yn creu llifogydd, tirlithriad a llawer o goed wedi disgyn o'i gwraidd ac yn cau llawer o ffyrdd a chryn dipyn o ddamweiniau. Yn ystod y flwyddyn yma, bydd cofio am y storm o eira a gawsom gyntaf, yna haf gwerth ei alw'n haf hefo gwres llethol ac yna y storm a greodd y fath lanustra.

Bywyd newydd wedi dechrau i lawer un, ffrindiau newydd a mwynhau cymdeithasu â hwy. Ffrindiau am oes i lawer un. Gobeithio bod y plantos bach wedi setlo i lawr ac yn dechrau mwynhau bywyd newydd yn eu hysgolion a'u rhieni yn teimlo'n hapusach erbyn hyn. Dymuniadau gorau a popb lwc a gobeithio ar ddiwedd y cyfan y bydd llwyddiant yn dilyn, felly mae yn rhaid dal ati. Mae'r flwyddyn yma eleni yn flwyddyn a fydd yn y cof am lawer o amser oherwydd yr ydym wedi cael bob math o dywydd a llawer un wedi cael llanast enbyd i'w cartrefi ac yn methu byw ynddynt. Gobeithio y gorau i bawb sydd yng nghanol y llanast a pethau yn edrych yn ddu am gael mynd yn ôl i'w cartrefi.

Diolchgarwch am y Cynhaef Mae'r tymor Diolchgarwch hefo ni unwaith eto a dyn a wŷr mae gan bob un ohonom le mawr i ddiolch amdano. Er, erbyn y dyddiau yma mae pethau wedi newid yn arw iawn. Rwyf yn cofio pryd y byddai y chwarel yn dawel ar ddydd Llun Diolchgarwch. Tri gwasanaeth y Sul a thri ar y dydd Llun gyda'r plant yn cymryd rhan yn y gwasanaeth bawn Llun. Dyma sut yr oeddym fel plant yn dysgu gwneud pethau yn gyhoeddus ac fe fu o help mawr i mi. Ar ddydd Llun Diolchgarwch yr oeddwn wrth fy modd, i mi dydd Sul arall ydoedd ond yn cael chwarae gan nad oedd fiw i mi chwarae ar y Sul gan fy mam, er nad oeddwn fel plentyn yn hoff o hyn. Ond, erbyn heddiw, credaf mai mam oedd yn iawn ac y mae dylanwad fy rhieni yn gryf arnaf o hyd.

Tybed a ydym wedi colli rhywbeth arbennig iawn? Os oes capel yn dal mewn bod ar ei draed capel tri chwarter gwag ydyw.

Mae dydd Llun Diolchgarwch heddiw wedi ei anghofio. Mae'r rhan fwyaf wedi anghofio am y gair bach 'Diolch'. Gobeithio rhyw ddiwrnod y gwelwn y dydd yma yn dod yn ôl.

Eleni roedd aelodau Cefn y Waun ac Ebeneser yn cynnal eu cyfarfod diolchgarwch yn Nhŷ Elidir am 5 o'r gloch, pryd y cyflwynwyd rhoddion i Fanc Bwyd Caernarfon. Fe fu y gwasanaeth yng ngofal ein Gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Diolch fod gennym weinidog sydd yn ein tywys ar hyd y ffordd gywir er pa mor anodd ydyw. (Gweler adroddiad dan newyddion Deiniolen)

Cofion Mae llawer o gwyno wedi bod yn yr ardal, gobeithio bod y rhai yma yn gwella ac anfonwn ein cofion atynt i gyd.

Hefyd cofion annwyl at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, yn y cartref yn Llanberis yn awr.

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI

<http://dioni.co.uk>
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk


Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk


The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

**menter
fachwen**



RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk



Pigion Byd Natur
Bydoedd sy'n Llawn Rhyfeddodau!




IAU 22 TACHWEDD 1.30yp
DEINIOLEN DDOE, HEDDIW AC YFORY (2 filltir)
CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN.
EITHA HAWDD. ANGEN SGIDIAU CERDDED.
I GYD FYND A'R 'STIWDIO STORI' YN YR YSGOL Y
PENWYTHNOS CANLYNOL (TACHWEDD 24/25)

MERCHER 28 TACHWEDD 1.30yp
LLANBERIS YN Y DDAU RYFEL BYD (2 filltir)
CYCHWYN: SIOP A CHANOLFAN CERDDED A
DARGANFOD MENTER FACHWEN, STRYD FAWR,
LLANBERIS.
EITHA HAWDD. ANGEN SGIDIAU CERDDED.

LLUN 3 RHAGFYR 1.30yp
HANES YSGOL CWM Y GLO A'R STRYD FAWR (1
milltir)
CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO
HAWDD IAWN. SEILIEDIG AR DAITH GERDDED
TRWY'R PENTREF GAN BLANT YR YSGOL YN Y
1990au GYDA CYMORTH AR Y PRYD GAN LLEW
HUGHES.

MAWRTH 4 RHAGFYR 1.30yp
HANESION O CWM Y GLO I BWLCH, PEN Y GAER A'R
ALLT GOCH (2 filltir)
CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO
ANODD. SGIDIAU CERDDED.
SEILIEDIG AR DAITH GYNLLUNIWDYD GAN BLANT
YR YSGOL YN Y 1990au.

SGYRSIAU / ARDDANGOSFEYDD AYY
HANES YSGOL A PHENTREF CWM Y GLO

IAU 6 RHAGFYR
YN YSGOL CWM Y GLO
SESIWN Y PRYNHAWN: 1.30-3.30yp
ARDDANGOSFA O HEN LUNIAU AC ATGOFION O'R
YSGOL
DEWCH A'G UNRHYW HEN LUNIAU GYDA CHI
CANIR Y GLOCH I GYCHWYN A GORFFEN Y SESIWN

SESIWN Y NOS: CYCHWYN 7.00yh
HANES YSGOL A PHENTREF CWM Y GLO:
ARDDANGOSFEYDD, SIOEAU SLEIDIAU A SGWRS
FER *
YN YSGOL CWM Y GLO
*CYNNWYS DEUNYDD O'R ARCHIFDY YNG
NGHAERNARFON
DEWCH I HEL ATGOFION AC I DDATHLU'R YSGOL.

Ie! Bydoedd yn hytrach na'r gair byd. Oes! y mae gennym ni fydoedd adar, creaduriaid, planhigion, pryfed, pysgod ac ymlusgiaid, a'r mis hwn fe'm ceir mewn tipyn o fyd hefo digwyddiadau rhyfeddol ym myd Natur.

Dyma beth a gynhwyswyd yn newyddiadur wythnosol Yr Herald Cymraeg Gorffennaf 28 (1855) 1 col.3:

'Dywed gohebydd, a eilw ei hun 'Trigianydd Machno'...:
Sylwais yn ddiweddar mor ryfeddol ydyw trefn natur. Yr oedd gan Evan Jones, Pen-y-ffrith, Penmachno, wýdd yn eistedd ar saith o wyau, a bu iddi ddeor ar saith o gywion...' ond cymerwyd yr hen wýdd yn glaf, a bu farw... Ond... darfu i Ragluniaeth fawr y Nef roddi ym mryd yr hen glagwydd eu tad i'w magu... byddai mor ofalus am bob un fel ei gilydd. Byddai yn ymledu ei adenydd amdanynt... ac yn eu harwain i bob man. Bob nos byddai yn cyrchu y cywion gydag ef i'w gwt. Dyma lle y byddai yn cymeru pob un i'w fynwes. Erbyn hyn y maent y cywion brafiad a welwyd erioed.'

A'r dro yng nghynffon y stori? Ceir diweddglo!
'Mae eu tad,' meddir, 'Wedi eu gadael i ofal trefn rhagluniaeth, ac wedi ailbriodi hen wýdd o Flaenglasgwm.'


Ie wir! doedd 'rhen glagwydd yntau ddim am fod wrtho'i hunan ac yn ddigymar.
Mi fues i, ers dros hanner canrif bellach, yn ddarllenwydd miloedd ar filoedd o gylchgronau a newyddiaduron Cymreig, gan fanteisio ar bob cyfle a gawn i, nid yn unig taro ar fanylion llawn difyrwrch ond hefyd gwneuthur yn fawr o'r cyfle i gofnodi nifer o bethau sy'n ymdrin a thrafod byd Natur.

Yng nghylchgrawn The Cambrian Visitor mis Awst (1893) dywedir i iâr grwydro i dŷ yn Abertawe ac yno mabwysiadodd gath fechan. Byddai'r ddwy ohonynt yn clwydo hefo'i gilydd. Ie! ar y traws-bren rhwng goesau bwrdd! Yn Y Cyfaill Eglwysig (1895) bu i gath fagu cyw-ysgyfarnog a cheisio'i gael i lygota! Methai'r gath â deall pam nad oedd y sgwarnog yn hoff o fyta llygod, ond yn hoff o fyta gwair!

Pwy ydoedd Bili bach? Ie, mochyn cwta o eiddo Alan Parry, Stryd Fawr, Deiniolen, a yfai lefrith o soser 'r union adeg byddai'r gath wrthi! Roedd Bili hefyd yn ffrindia garw hefo Tos y ci, Y Cymro Hydref 17 (1957) 8.

Ond dychwelaf at y gwyddau. Beth ydyw 'Ffair Chwarter Gwýdd'. Holwch! Gadech inni wybod.

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd. LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
E-bost- lisa.huw@btinternet.com



WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W Bwyta
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Bore Coffi Macmillan

Ar y seithfed ar hugain o fis Medi fe gynhaliwyd Bore Coffi Macmillan yn llyfrgell yr ysgol ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth a staff yr ysgol. Eleni fe lwyddwyd i gasglu £322.13 ar gyfer yr elusen.

Cafodd y bore coffi ei drefnu gan grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 12. Cafwyd llawer o gyfraniadau o gacenni gan y disgyblion a'r athrawon. Derbyniwyd nifer fawr o gacennau blasus i'w rhannu ar y diwrnod. Rydym yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau rhai ariannol ac eraill. Diolch hefyd i'r disgyblion a wnaeth brynu'r holl ddeunyddiau oedd eu hangen.

Mae'r arian a gasglwyd ar y diwrnod am fod yn help mawr i alluogi i ddiodefwr cancr i gael nyrs Macmillan i'w cefnogi

drwy eu triniaeth cancr. Arbenigwyr yn y maes gofal cancr yw nyrsus Macmillan sydd hefyd yn gynghorwyr i'r cleifion. Maent yn cynnig ysgwydd i grio arni yn ystod adegau caled a hefyd mewnbwn a chymorth proffesiynol, nid yn unig i'r cleifion ond i'w teuluoedd hefyd.

Gobeithiwn y bydd Bore Coffi Macmillan yn draddodiad fydd yn cael ei barhau gan flynyddoedd 13 a 12 y flwyddyn nesaf. Rydym yn siŵr byddant yn gafael ynddi gyda'r un brwdfrydedd â chriw'r flwyddyn yma yn y dyfodol er mwyn parhau ein cefnogaeth yn Ysgol Brynrefail i'r elusen hynod bwysig yma. Diolch i bawb a wnaeth helpu ar y diwrnod ac i bawb a wnaeth gyfraniad.

Treialon Pêl-rwyd



Ar ddechrau Hydref hefyd cynhaliwyd Treialon Pêl-Rwyd Arfon Dan 16, llongyfarchiadau i'r genethod canlynol ar gael eu dewis i garfan pel-rwyd dan 16 Arfon yn dilyn y treialon hynny - Elain Williams, Enlli Williams, Elin Thomas, Anya Williams, Georgia Parkinson, Abbi Parkinson a Melody Haston Wilson.

Twrnament Pêl-rwyd o safon uchel

Enillodd Brynrefail y grwp, dyma'r canlyniadau:

Brynrefail 8 – 5 Bryn Elian

Brynrefail 9 – 1 Tryfan

Brynrefail 19 – 1 Bodedern

Brynrefail 14 – 1 Botwnnog

Brynrefail 12 – 3 Bro Idris

Enillodd Brynrefail y rownd gyn derfynol hefyd yn erbyn yr hen elyn ;

Brynrefail 10 – 5 Syr Hugh

Canlyniad y gêm derfynol oedd

Brynrefail 9 – 10 Maes Garmon

gyda Maes Garmon yn anffodus yn sgorio yn yr eiliad olaf i ennill y gem!

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth



Roedd cyfle i bawb wisgo coch dydd Gwener Hydref 19 gan ei bod hi'n ddiwrnod 'Dangos y Cerdyn Coch I Hiliaeth'. Diolch i Dr Ruth Sharrock a blwyddyn 12 am y trefniadau. Rydym yn falch o gefnogi'r elusen yma yn yr ysgol sy'n cyhoeddi bod pob person waeth bynnag beth fo lliw ei groen yn haeddu ei drin yn deg ac â pharch bob amser.



Hoci



Natalie Meek Bl 11, Elin Jones Bl 10 a Mared Llwyd Bl 9
Tim Hoci Gwynedd—Pencampwyr Gogledd Cymru

Sgio



Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am eu llwyddiant yn y gystadleuaeth sgio cenedlaethol yn Llangrannog ddechrau'r mis; Alaw Swyn o dan 12oed - 1af, Issy Shaw o dan 14oed - 1af, Molly Chisholm o dan 14 oed - 3ydd. Rhoddwyd gwobr ychwanegol i Molly sef 2il yng nghategori'r holl enethod ac Issy yn 1af. Daeth Eiddon Morris-Williams yn 4ydd o dan 14oed, Heledd Swyn yn 4ydd o dan 18 oed a pedwerydd hefyd i Alys Chisholm o dan 16 oed. Llwyddodd Eirwen Howorth, Mared Evans o dan 14oed a Gruff Owen o dan 14oed I gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus hefyd.

Roedd deg tim genethod yn cystadlu o ysgolion gwahanol ar draws Cymru ac fe ddaeth tim Ysgol Brynrefail yn 4ydd ac yn 7fed sy'n golygu felly bod Alys, Heledd a Molly wedi llwyddo i fynd ymlaen i'r gystadleuaeth Pencampwriaeth Ysgolion Prydain yn yr Alban ym mis Tachwedd. Newyddion gwych bod disgyblion yr ysgol yn serenu mewn maes fel sgio yn ogystal â'r holl gampau arferol eraill.

Clwb Gwyddoniaeth



Dyma glwb sydd newydd ei sefydlu yn yr ysgol eleni fel ymateb i gais gan Bl 8 llynedd. Gofynnodd Noa Rhys a Jack Booth (bl 9 erbyn hyn) am fwy o gynnwrf a chyffro wrth ddysgu am Wyddoniaeth efallai trwy sefydlu clwb. Dyma oedd prif bwyntiau cais y bechgyn:

- Eisiau cyfle i wirioneddol arbrofi
- Hwyl!
- Cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau
- Ffair wyddoniaeth –tebyg i'r drefn yn America



Felly gyda cymorth disgyblion BAC Ysgol Brynrefail a Mr Gethin Parry o'r adran Mathemateg mae'r clwb wedi cychwyn ers yr ail wythnos ym mis Medi. Dyma restr o'r gweithgareddau hyd yma:

- Adwaith mentos a cola ar y cae chwarae
- Cynllunio modiwl ailfynediad i eggstrolaut – defnyddio papur, tap selo, gwellt, llinyn a ffyn lolipop i adeiladu modiwl i amddiffyn wy cyn ei daflu drwy ffenestr y corridor uchaf
- Past dannedd i eliffant – adwaith hydrogen perocsid, burum a sebon i gynhyrchu



lot fawr o ewyn

- Cynhyrchu peli sy'n sboncio gyda glud a borax
- Adeiladu hofrenfad gyda CD, top potel a balwn

Mae'r clwb wedi profi yn llwyddiant mawr hyd yma a phawb yn mwynahu yn arw. Mae hefyd yn gyfle i adrannau Gwyddoniaeth, Dylunio & Technoleg a Mathemateg gydweithio fel paratoad ar gyfer y Cwricwlwm newydd hefyd.

Pwyllgor Calonnau

Dymuna Sioned Mair ar ran y pwyllgor ddiolch i staff Ysgol Bethel am drefnu diwrnod hyfforddi i'r plant ar ddefnydd o'r peiriant diffib. Y tiwtor oedd Nick Aitken o elusen Calonnau Cymru.

Diolch hefyd i Delyth Gwyn a'i brawd Iwan Morris am godi arian nawdd drwy gyflawni marathon Caerdydd. Fe rannwyd yr arian rhwng y Cylch Meithrin, C.P. D. -10 Bethel a chronfa Calonnau Bethel. Mae Sioned yn gobeithio trefnu y noson hyfforddi nesaf i oedolion yn y flwyddyn newydd.

Caffi Galw'i mewn.

Bydd y caffi ar agor yn y Neuadd unwaith eto'r mis hwn ar fore'r 27ain. Cofiwch ddod draw am baned, cacen a sgwrs.

Elusennol

Cafwyd cefnogaeth dda unwaith eto i'r Tè McMillan diweddaraf yn y Neuadd Goffa. Bu llawer yn hael eu rhoddion nid yn unig yn ariannol ond at wobrau'r raffl, cynnyrch y bwrdd gwerthu ac wrth gwrs y danteithion penigamp ar y byrddau. Mae'r criw trefnu yma yn benigamp. Y tro yma daeth cyfanswm y casglu yn £720, a phenderfynwyd cyfrannu £200 o'r elw at gronfa Ymchwil Clefyd y Motor Neurone.

RHODD

Ar ran pwyllgor yr Eco diolch i John Maldwyn a Mair Jones Tan y Buarth am eu rhodd tuag at ein papur. Ni fydd John a Mair yn anfon cardiau Nadolig eleni, felly maent yn cyfrannu rhodd i'r Eco.

COLLED

Dymuna Maud, Menna a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am yr holl garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd o bell ac agos wedi eu colled o'wr, tad, taid a brawd arbennig Huw Deulyn Williams. Diolch arbennig i'r Parchedigion Marcus Robinson ac R.E.Hughes; ac i Deilwen Hughes am eu gwasanaeth cywir a theimladwy ddydd yr angladd. Diolch hefyd i gwmni Dylan a Meinir Griffith, Penisarwaun am eu gofal. Diolch hefyd i'r sawl a gyfrannodd er cof am Huw tuag at Gymdeithas y Deillion, Bangor a Hafan Iechyd, Caernarfon.

Yr oedd teyrnged syml, deimladwy Menna yn ddarlun clar o'i thad, brenin ei aelwyd a'i ofal dros y teulu. Am hir cofir y canu, a'r ddwy emyn ar y tonau Pantyfedwen a Finlandia yn adlewyrchu ffydd a chariad disyfl Huw yn ei grêd a'i genedl.

Un o Nantlle oedd Huw ac ymfalchiodd yn ei gefndir a'i fagwraeth a ddeuai i'r amlwg yn ei sgysiau. A sgwrsiwr oedd Huw, nid yn orlif geiriol ond un a safbwynt bendant wedi ei selio ar wybodaeth eang. Wedi gadael y Normal aeth i Birmingham fel aelod o dim pêl-droed Birmingham City. Yn dilyn anaf drwg trodd at ddysgu yn y ddinas honno ac yna dychwelyd i Arfon yn gyntaf fel athro ac yn hwyrach fel prifathro uchel ei barch. Yn gefn trwy'r cyfan bu Maud y ferch o Ddeiniolen a gyfarfodd a'r hogyn o Nantlle ar y Maes. A pham oedd Huw yno y nos Sadwrn honno? Am nad oedd digon o ddŵr yn yr afon iddo fynd i bysgota! Cafodd fachiad da serch hynny.

A dyna un o ddileits mwyaf Huw. Roedd yn grefftwr mewn sawl modd a sawl dodrefnyn o'i wneuthuriad yn britho'r tŷ. Ond yr enwair, llonyddwch a darllen llif afon a llyn oedd yr her fwyaf. Fe'i cydnabyddid fel pysgotwr dawnus iawn. Addas felly i ddiweddu'r cofiant yma yw dyfynu englyn y Prifardd Ieuan Wyn i'r Pysgotwr.

Y llyn oedd y llonyddwch – i'w enaid,
ag i lyn tawelwch
yn ei gwsg, llithrodd ei gwch
o'r geulan i'r dirgelwch.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mair Read a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, Cathryn James o Gororion, Tregarth a Llanberis gynt. Yr un modd cydymdeimlwn â Rita Owen a'r teulu â gollodd frawd, Fred Burnand oedd yn byw yn Coventry.

ENILLWYR CLWB 100 Y NEUADD GOFFA

Dyma'r enillwyr o Dachwedd 2017 hyd Hydref 2018. Roedd y gwobrau yn ôl trefn yn £25, £15, £10.

11/17: Kelly O'donnell, Cledwyn Jones, Nan Owen. 12/17 : Dafydd Williams, Anne Elis, Dafydd Emrys 01/18 : Bet Jones,

Emrys Read, Mair Read. 02/18 : Mair Williams, Iola Jones, Gwyn Williams 03/18 : Eleri Warrington, Mabel Jones, Gwilym H. Williams 04/18 : Wendy Grail, Ann Hughes, Ann Lewis 05/18 : Gwynfor Morris, Iwan Morris, Falmai Owen 06/18 : Mark Thomas, Enid Williams, Val Griffiths

07/18 : Tecwyn Hughes, Eirlys Sharpe, Gwilym H. Williams 08/18 : Ceris Williams, Helen Bailey, Liz Watkin 09/18 : Dilys Perez, Ann Pierce Roberts, Ieuan Williams 10/18 : Kay Williams, Elizabeth Evans, Glenda Hughes

Diolch am eich cefnogaeth. Sion Williams (Trysorydd)

MERCHED YWAWR

Rhoddodd ein Llywydd eleni, Gwenan Roberts groeso cynnes i'r aelodau gan gynnwys ambell i aelod newydd i gyfarfod mis Hydref. Estynwyd llongyfarchiadau i dair o'n haelodau wedi eu hetholi swyddi tu fewn i'r mudiad: Anne Elis (Ysg. Cenedlaethol), Gwyneth Jones (Is-lywydd Rhanbarth Arfon) a Mair Price (Ysg. Rhanbarth Arfon).

Trefnwyd tîm i gynhyrchioli'r gangen yn y Cwis Cenedlaethol ar Dachwedd 9ed, a dosbarthwyd y dyddiaduron a'r calendrau.

Alwyn Jones o elusen Ambiwlans Awyr Cymru oedd ein gŵr gwadd. Ers cychwyn yr elusen ar Ddydd Gwyl Dewi 2001 mae'r elusen bellach yn darparu gwasanaeth pedair hofrenydd a phum cerbyd ymateb cyflym rhwng 8yb ac 8yh bob dydd o'r wythnos. O'u lleoliadau sefydlog yn Ninas Dinlle, Y Trallwng, Llanelli a Chaerdydd gall un o'r hofrenyddion fod o fewn cyrraedd unrhyw argyfwng tu fewn i Gymru o fewn 20 munud. Ystadegyn rhyfeddol yn y cyswllt yma yw bod galw am wasanaeth hofrenydd 201 o weithiau yn ystod Awst 2018 yn unig. Sawl bywyd achubwyd tybed? Rhoddwyd manylion sut y gallwn gefnogi yr elusen hanfodol yma yn ariannol o'r caffi yn Ninas Dinlle, sawl un o'u siopau elusen penodol neu sawl digwyddiad nodd. Diolchwyd i Alwyn gan Liz Watkin.

Gofynnir i'r aelodau ddychwelyd eu dewis o brydau – a'r arian – ar gyfer y Cinio Nadolig yng Nghwesty'r Celt, erbyn y cyfarfod nesaf.

CYNGOR CYMUNED

Dim ond tri chais a dderbyniwyd gan fudiadau a chlybiau Bethel eleni am gyfraniad ariannol gan y cyngor. O'r herwydd fe dderbyniodd y rhai a geisiodd swm uwch na'r cyfraniad arferol. Derbyniodd Eisteddfod Bethel £300, Clwb Bowlio Dan Dô £200 a Chlwb Bro Bethel £200. Yn y tri achos roedd Taflen Ariannol wedi ei gyflwyno, ac awgrym sut roedd yr arian i'w wario.

DIWRNOD "Shwmae Sut-mae"

Fe ddatblygodd y diwrnod yma dros y blynyddoedd. Y bwriad yw cyfarch ein gilydd yn y Gymraeg yn gyntaf, a chael y di-Gymraeg i ymateb yn gadarnhaol. Cafwyd syniad gwreiddiol yma ym Methel eleni gyda'r disgyblion yn mynd draw i'r Post ac i garej Ceir Cymru â chyflwyno ambell i gân ynghyd a'n Hanthem Genedlaethol – Flash Mobio yw'r term. Ysgol yn rhan o'r gymuned go iawn. Cofnodwyd yr achlysur ar Facebook ac roedd yn wir codi calon – canu a gwên. Ymfalchiwn fod gennym ysgol Gymreig naturiol yma yn y pentref. Gwelwn dristwch sawl ardal wledig hefyd ble mae'r ysgol – calon y gymuned – wedi cau, a lleisiau'r plant ddim i'w glywed bellach.

CLWB BRO BETHEL

Daeth criw niferus unwaith eto i gyfarfod Hydref. Nia Williams o Landegfan oedd y siaradwraig wadd. Mae Nia wedi bod â diddordeb mewn hen greiriau ers blynyddoedd a daeth ag enghreifftiau gyda hi. Diddorol oedd ei sgwrs yn dehongli hanes ac apel yr eitemau. Yr oedd rhai o'r aelodau hefyd wedi dod ag ambell i wrthrych ac arweiniodd hyn at drafodaeth ddiddorol. Yr oedd y sgysiau ychwanegol dros y baned yn cadarnhau pnawn lwyddianus. Y mis nesaf - Tachwedd 6ed – byddwn yn cynnal ein harbrawf cyntaf eleni o ymweld â mannau ar ambell i bnawn arferol y Clwb. Byddwn yn ymweld a Chrochendy Piggery yng Nghwm y Glo. Y bwriad yw cludo pawb yno drwy rannu moduron. Os oes rhywun angen cludiant cysylltwch â Mary a Richard.

Parhad BETHEL

EISTEDDFOD

Diolch i'r pwyllgor gweithgar am eu darpariaeth drefnus yn llwyfanu eisteddfod lwyddianus eto eleni. Diolch i'r unigolion a gyfrannodd yn ariannol ac i'r nifer â ddaeth i gefnogi y cystadleuwyr ieuanc fel cynulleidfa. Fe restrir yr ennillwyr yn rhifyn mis nesaf o'r Eco. Diolch i Brifathro a staff yr ysgol unwaith eto am eu gwaith paratoi gyda'r disgyblion.

Ennillydd Tlws yr Ifanc (Cynradd) oedd Ella Williams (Seion) am ysgrif yn dehongli teimladau plentyn oedd yn un o ddisgyblion olaf Ysgol Capel Celyn cyn y boddi. Dyfarnwyd y tlws cyffelyb i'r oedran uwchradd i Ioan Ifans disgybl Bl. 11 yn Ysgol Brynrefail. Aeth y gwobrau i'r oedolion i Helen Morris (Tlws Llain yr Ardd) a'r Limrig i Elen Ellis.

DIOLCHGARWCH

Diolch i blant ysgol Sul y Cysegr am gynnal y traddodiad o wasanaeth diolchgarwch. Diolch arbennig i Efa, Lydia, Nel, Leia, Lleucu, Cadi, Ifan, Eban a Gruff am ein harwain drwy air a chân. Diolch i Myfanwy Harper, Arolygydd yr Ysgol Sul am lywio'r gwasanaeth â'i gair pwrpasol i'r plant, i Anti Rita am y cyfeilio ac i'r athrawon eraill am eu hyfforddiant. Diolch i'r rhieni sy'n danfon eu plant i'r Ysgol Sul. Fe wnaed casgliad rhydd, gyda'r rhoddion eleni yn mynd at Ganolfan Niwrolegol Ysbyty Walton, Lerpwl.

SULYCOFIO

Cynhelir gwasanaeth eto eleni fore Sul, Tachwedd 11ed. ger y Gofeb ar lidiart yr Ysgol. Eleni byddwn yn cofio mai union gan mlynedd i'r diwrnod tawelodd y gynnau mawr ar y rhyfel oedd i ddiweddu pob rhyfel. Nid felly y bu wrth gwrs a gwaed y miliynau ers hynny 'yn gymysg gyda'r glaw'. Bydd croeso i unigolion a mudiadau osod torchau ger y gofeb.

DIOLCH

Dymuna Morlais a Delyth, Arfon House, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu haelioni wrth iddynt ddatlu eu Priodas Ruddem (40 mlynedd) yn ddiweddar.



**FFAIR GREFFTAU
YSGOL BETHEL**

**Nos Iau
8/11/18
6:00-8:00pm**

BYDD STAFF YR YSGOL YN
CYNIG CLWB GWARCHOD YR PLANT!

BYDD STAFF YR YSGOL YN
CYNIG YR WEDD GWARCHOD YR PLANT!

**£2
GAN GYNNWYS
PANEL A MIBS PE!**

CYFLE GWYCH I BRYNU POB MATH O ANRHEGION A CHYNNYRCH LLEOL- BYDD YR YSGOL YN LLAWN O STONDINAU CWMNIAU LLEOL!



Mae'r mudiad Curiad Calon Lleol wedi ei sefydlu gan Bryn Roberts, Llanberis er cof am ei ddiweddar dad, Llew Roberts a fu farw o drawiad ar y galon bedair blynedd yn ôl. Doedd dim diffibrilwr ym mhentref Llanberis ar y pryd. Bwriad Bryn yw cynorthwyo cymunedau lleol i gasglu arian i gael diffibrilwr ar gyfer eu pentrefi a chynnig hyfforddiant wedyn ar sut i'w defnyddio. Mae'r rhai sy'n rhan o'r mudiad yn gwirfoddoli, ac yn cynnig hyfforddiant am ddim. Yn ôl Bryn, bodolaeth diffibrilwr yw'r ddolen goll yn y broses o achub bywyd rhywun sy'n cael trawiad.

Ar hyn o bryd, y cymunedau o fewn bro'r "Eco" sy'n rhan o gynllun Curiad Calon Lleol yw Deiniolen/Dinorwig, Llanberis a Nantperis. Mae pwyllgor eisoes wedi ei sefydlu yn Neiniolen/Dinorwig, a'r bwriad yw casglu digon o arian i gael dau ddiffibrilwr yn Neiniolen ac un yn Ninorwig. Amcangyfrifir fod angen tua £1,500 ar gyfer pob diffibrilwr. Ar ddyddiad paratoi'r adroddiad hwn roedd cronfa Deiniolen/Dinorwig eisoes dros hanner ffordd i brynu y cyntaf o'r tri, a'r arian yn dod o fudiadau megis y Cyngor Cymuned, Grwp Dyfodol Deiniolen, a nifer o unigolion. Yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd yn Nhŷ Elidir dan nawdd Merched y Wawr, casglwyd bron i dri chant a hanner o bunnau. Ddiwedd Hydref cynhaliwyd cyfarfod cadarnhaol arall yn y pentref, ac adroddwyd fod y codi arian yn ennill momentwm. Mae'n bosib cyfrannu'n uniongyrchol i gronfa Deiniolen/Dinorwig ar safle Curiad Calon Lleol yn <https://www.curiadcalon.org/deiniolen.html>

Yn ôl asesiad Bryn bydd angen 3 diffibrilwr ym mhentref Llanberis ac un yn Nantperis.

Wedi i'r ymgyrch codi arian gael ei chwblhau ac i'r diffibrilwyr gael eu gosod, bydd Bryn yn trefnu hyfforddiant yn lleol ar sut i'w defnyddio, ac yn cofrestru pob un gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans. Pe byddai argyfwng ac angen ffonio 999 byddai'r Gwasanaeth Ambiwlans yn medru cyfeirio'r galwr at y diffibrilwr agosaf.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.curiadcalo.org



CEIR CYMRU

**Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 Mlynedd**

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

**Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451**

Ysgol Gynradd Llanrug



Genod blwyddyn 6 Wedi gwneud eu gorau yn nhwrnament pel rwyd Arfon.



Taith ysgol blwyddyn 3 a 4 i Oriel Môn i ddysgu mwy am y Celtiaid.



Alys Williams ac Yws Gwynedd wedi bod yn brysur yn gwrando armom ni i gyd yn canu ein caneuon ar gyfer diwrnod shwmaesumae.



Cafodd blant Blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod hynod o ddifyr yn dysgu am hanes un o arwyr mwyaf Cymru yn yr Ysgwrn.



Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn brysur iawn yn gwerthu cacennau ar gyfer Macmillan. Diolch i bawb am gyfrannu. £601 a gasglwyd.



Balch iawn o'r hogia yma am wneud yn wych yn nhwrnament yr Urdd! Llawer o gemau da a phawb yn mwynhau! Yn y diwedd colli o 1-0 i Ysgol yr Hendre yn y gem derfynol! Da iawn chi.



Mae Beicio Cymru yn yr ysgol yn rhoi gwersi beicio i flwyddyn 3 a 4 ar hyn o bryd.

Parhad LLANRUG



Capel y Rhos



Plant Ysgol Sul Capel y Rhos yn cyflwyno eu gwasanaeth Diolchgarwch

Cyngerdd Adfent Cynhelir ein trydydd Cyngerdd Adfent ar nos Sul, Rhagfyr 9fed, yng Nghapel y Rhos. Eleni Côr Meibion Dyffryn Peris fydd yn diddanu gyda'i harweinydd, Mr Dafydd Roberts.

Hafan Elan Dalier Sylw. Mae Clwb Cymdeithasol Hafan Elan/Social Club yn awr ar y wep-lyfr (Facebook).

Profedigaethau Cydymdeimlwn yn arw gyda theulu Richard Lewis, Crawia, a fu farw yn sydyn yn ddiweddar yn 76 mlwydd oed. Cofiw'n at Meurig ac Eryl a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yn yr un modd, cofiw'n yn ddiffuant at Cari Owen, Tŷ Fry, Ffordd yr Orsaf, hithau mewn profedigaeth wedi colli ei brawd, Sion Rhys Jones yn y Waunfawr.

Yn Waunfawr fe fu farw brawd yng nghyfraith Arnold, 4 Hafan Elan, yn ddiweddar. Cofiw'n atoch yn eich profedigaeth.

Yn andros o sydyn bu farw Dennis Jones, Bonc, yn 68 mlwydd oed. Colled fawr i John, Allan a'u teuluoedd, Bryn, a theulu'r ddiweddar Kathleen a'i gymdogion i gyd.

Pen-blwydd Arbennig Llonyfarchiadau mawr i Mathew Wiggins, Ffordd yr Orsaf, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Priodas Llonyfarchiadau mawr a phob bendith i Lynn ac Alun o Pontllyfni, merch John Richard a'r ddiweddar Nerys, Bwthyn, Glanffynnon, ar eu priodas yn ddiweddar.

Cydymdeimlad Anfonwn ein cofion at Eifion a Gwyneth Jones, 18 Glan Moelyn, yn dilyn eu profedigaeth o golli nith Eifion, sef Lyn o Rhes Faenol, Deiniolen, yn 48 mlwydd oed.

Gwella Da yw deall bod Dafydd ac Eirianwen Thomas yn gwella, y ddau wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae Dafydd yn barod wedi ailgychwyn cerdded y brynau yma!

Eglwys Sant Mihangel Bydd Addoli Cafe yn y Sefydliad Coffa dydd Sul, Tachwedd 4ydd am 10 o'r gloch y bore. Mae croeso cynnes i bawb.

Bydd yr Addoli Cafe dilynol ddydd Sul, Rhagfyr 2il, gyda'r thema yn paratoi ar gyfer y siwrnai tua'r Nadolig.

Diolch cywiraf i bawb a gyfrannodd tuag at dreuliau torri gwair y Fynwent yn ystod 2018.

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne a derbyniwyd ymddiheuriadau gan rai aelodau. Cychwynwyd gyda Chên y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Estynnwyd croeso cynnes i Carys Jones, Penisarwaun, wedi triniaeth i'w throed. Darllenwyd llythyr gan Menna yn cofio atom i gyd ac yn gobeithio cael llawdriniaeth yn Ysbyty Aintree, Lerpwl, ar Hydref 24ain. Ein dymuniadau gorau i ti, Menna. Cydymdeimlwyd â Carrie yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Cynhelir cystadleuaeth cynllunio Cerdyn Nadolig 2019 y Mudiad mewn unrhyw gyfrwng a chystadleuaeth cyfansoddi Cerdd neu Farddoniaeth gwreiddiol i roi o fewn y cerdyn. Bydd y buddugwyr yn derbyn 2 becyn o gardiau a £20 yn wobwr. Cofiwch



Rhoddodd Non Llwyd flynyddoedd o wasanaeth arbennig i Glwb y Sul yng Nghapel y Rhos. Fel gwerthfawrogiad o'i hymroddiad, cyflwynodd y Parch. Marcus W Robinson ddarlun iddi o Ben Llyn, Brynrefail – man sy'n agos at galon Non.

gadw nos Wener, Tachwedd 9fed yn rhydd ar gyfer y 'Cwis Hwyl' gyda o gwmpas 1,000 o aelodau yn cystadlu ar draws Cymru.

Cystadlaethau Sioe Llanellwedd 2019 fydd cynnyrch a gwaith llaw, 'Garddwriaeth' Gorffennaf 22 i 25ain.

Cystadleuaeth Cwpan Radi Thomas 2019, y thema yw 'Yr Arfordir' Crefft.

1. Ffotograffiaeth lliw wedi'i fframio, dim maint penodol; 2. Trefniant blodau modern; 3. Gwau cap a sgarff ar gyfer mynd i gerdded; 4. Mosaic; 5. Coginio Torth o fara gan ddefnyddio burum, unrhyw siâp.

Thema Y Babell Flodau: 'Llwybrau'.

Gŵr gwadd y noson oedd yr amryddawn Dafydd Whiteside Thomas gyda sgwrs a lluniau am 'Llanrug Ddoe a Heddiw'. Cychwynwyd gyda gwybodaeth ddiddorol am ddatblygiad Llanrug, y tiroedd caeth a rhydd a pherchnogion y Faenol yn hawlio'r tir. Roedd nifer o'r aelodau wrth eu bodd yn dilyn hanes datblygiad yr ysgolion a hanes Bryn Rhos a'r Rheithordy. Trem yn ôl wedyn am ddatblygiad y siopau niferus a thrafnidiaeth gyda lluniau gwych o'r cart lefrith yn cario llefrith o ddrws i ddrws. Dangoswyd nifer helaeth o luniau diddorol am adloniant yn y pentref: Côr Capel Mawr, Parti Cyd Adrodd 1947; Band Llanrug 1834; Cerddorfa; Dawnsio Gwerin; Carnifal; Pêl-droed gyda Llanrug yn ennill y Gynghrair; Alves Cup 1948 a Sefydliad y Merched 1957. Gorffennwyd gyda llun bendigedig o Jean Roberts, Megan Roberts a Valmai yn llawn direidi yn eu gwisg ysgol.

Bu hon yn noson wrth fodd pawb ac edrychir ymlaen at gwmni Dafydd eto i'r dyfodol. Diolchwyd i Dafydd am ei gyflwyniad addysgol a thu hwnt o ddiddorol. Enillydd y raffl ar y noson oedd Megan. Diolchir i Phyllis, Myfanwy, Jean ac Ann am y baned. Heulwen, Haf, Carolyn, Iris ac Eirian fydd yn gyfrifol am y baned a'r raffl mis Tachwedd.

Cynhelir Cinio Nadolig y gangen yn Y Felin, Pontrug, nos Fawrth, Rhagfyr 11eg. Gofynnir i chi lenwi eich taflen fwydlen a thalu am y bwyd yn y cyfarfod nesaf. 2 gwrs a choffi yn £21; 3 cwrs a choffi yn £24.50.

Edrychir ymlaen at gwmni Pat Jones, Brynrefail, gydag Addurniadau Nadolig ar Dachwedd 13eg.

Ar Hydref 19eg cynhaliwyd Dathliad Llywyddiaeth Meirwen Lloyd yng Ngwesty'r Celt am 7.30. Diolch i Phyllis, Llywydd Anrhydeddus Cangen Llanrug, am adroddiad o'r noson.

Oedfaon Tachwedd

Tach. 4: - Parch. Marcus W Robinson y gweinidog. Gweinyddir Cymun

Tach. 11: Parch Gwynndaf Jones, Bangor

Tach. 18: Y Gweinidog

Tach. 25:- Ms Eleri Jones

Parhad LLANRUG

Cyfarfod Dathlu Llywyddiaeth Meirwen



Croesawyd pawb gan Mary Roberts, Llywydd y Rhanbarth, a chroeso arbennig i Meirwen; Sandra Morris Jones, y Cyn-lywydd; Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, a Threfnydd y Gogledd ynghyd â Threfnydd y Clybiau Gwawr. Rhoddodd Mary fraslun o hanes Meirwen yn y gangen ac yn y pentref. Darllenodd gerdd a ysgrifennwyd gan y Prifardd Manon Rhys a oedd yn ffrind i Meirwen pan oedd yn byw yn Rhostryfan.

Canwyd 'Llongau Caernarfon' gan gôr o aelodau Cangen Llanrug, darn a oedd yn addas iawn i'r achlysur gan yr arferai taid Meirwen fod yn un o'r rhai oedd yn llwytho llechi ar y cei yng Nghaernarfon. Cafwyd pryd o fwyd bwffe yn cynnwys amrywiaeth o ddanteithion oer a phoeth a diddanwyd trwy gydol y pryd bwyd gan y delynores, Elain Rhys, gydag amrywiaeth o alawon Cymreig.

Diolchwyd i bawb fu'n helpu i drefnu'r noson gan Bethanne Williams. Llywydd Cangen Llanrug, a rhoddodd fraslun o hanes bywyd Meirwen o'i magwraeth yn Rhostryfan, ei gyrfa yn y banc pryd y cyfarfu â'i gŵr, Selwyn, dod yn fam i dri o fechgyn ac erbyn hyn yn nain i ddau. Cyflwynodd Bethanne englyn o waith Dafydd Whiteside Thomas iddi wedi ei bwytho gan Eirianwen a'i osod mewn ffrâm.

Cafwyd gair gan Sandra Morris Jones yn dweud pa mor falch yr oedd hi fod Meirwen wedi cytuno i fod yn Llywydd Cenedlaethol ac yn diolch iddi am weithredu yn y cyfnod pan oedd hi ei hun yn wael. I ddiweddu'r noson diolchodd Meirwen i bawb fu'n trefnu'r achlysur pleserus ac anogodd holl aelodau Merched y Wawr i wneud eu gorau dros ein hiaith a dros Gymru.

Cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Mary ar ran y Rhanbarth.

Ffrindiau'r Ysgol Gynradd

Trip siopa i Lerpwl Dydd Sadwrn Tachwedd 10fed.

Archebwch eich lle ar y linc isod.

<http://bookings.arvoniaco.uk/Tour/triplerpwlysgollanrug>

Fffair Nadolig : - Nos Iau Tachwedd 29, 5yh - 7yh. Adloniant, bwyd, stondinau busnesau lleol ac ymweliad gan Sion Corn.

Plaid Cymru

Enillwyr y Clwb Cant mis Hydref:

- 1..Goronwy Hughes
- 2..Geraint Parry

Dymuna Elizabeth, Lynda, Dawn, Wendy ac Arwyn ddatgan eu diolchiadau am yr holl alwadau, cardiau, rhoddion a'r negeseuon caredig a gafwyd yn dilyn marwolaeth Wavell. Bydd y rhoddion yn mynd tuag at Dementia/Alzheimers a Meddygfa Waunfawr. Diolchwn hefyd i'r parchedig Marcus Robinson, Mair Hughes, meddygfa Waunfawr, cartref Gwynfa Bontnewydd a chwmmi Roberts a Owen, Penygroes, am eu gwasanaeth.

Un funud fach ...

YRUNFED AWRARDDEG

Chwe blynedd yn ôl y digwyddodd ddiwethaf, ac ni fydd yn digwydd eto am un mlynedd ar ddeg arall. Ond mae'n digwydd eleni. Eithriad yw i Sul y Cofio fod ar Ddydd y Cadoediad ar Dachwedd 11. Ond yn briodol eleni, union gan mlynedd ers y Cadoediad a ddaeth â diwedd i'r ymladd ar y Ffrynt Orllewinol a diwedd y Rhyfel Mawr, y mae'r ddau'n cyd daro. Cafodd y Cadoediad ei arwyddo mewn cerbyd trên mewn llannerch yng Nghoedwig Compiègne, i'r gogledd o ddinas Paris, am bump o'r gloch y bore; daeth i rym yn ddiweddarach y bore hwnnw, ar unfed awr ar ddeg, unfed dydd ar ddeg, unfed mis ar ddeg y flwyddyn 1918.

Heddiw, mae amgueddfa yn y llannerch honno ac ynnddi gerbyd tebyg i'r un yr arwyddwyd y Cadoediad ynnddo. Nid yr union gerbyd gan fod hwnnw wedi ei symud o Compiègne i'r Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a'i ddinistrio yn 1945, cyn diwedd y Rhyfel. Buom yn yr amgueddfa yn Compiègne rai blynyddoedd yn ôl a rhyfedd oedd meddwl mai ar yr union safle hwnnw yr arwyddwyd y ddogfen a ddaeth â thros bedair blynedd o ryfela dieflig i ben.

Y Rhyfel Mawr, yn ôl y nofelydd a'r hanesydd H G Wells, fyddai'r 'rhyfel a ddeuai â diwedd i ryfel'. Tristwch pethau oedd mai camsyniad dybryd ar ei ran oedd hynny, a bod y rhyfel hwnnw wedi ei ddilyn gan lu o ryfeloedd ar draws y byd. Mae Sul y Cofio yn ein hatgoffa bob blwyddyn o'r dioddefaint a'r colledion a achoswyd gan holl ryfeloedd ddoe a heddiw. Yn naturiol eleni, bydd mwy nag arfer o raglenni ac erthyglau i'n hatgoffa am y Rhyfel erchyll. Ond tristwch pethau yw na ddaw'r oriau o gofio â ni'n nes at y ddelfryd yr oedd Wells yn ei darlunio. Nid yw'r holl sôn a fu am ddigwyddiadau a dyddiadau arwyddocaol dau Ryfel Byd dros y blynyddoedd diwethaf wedi newid dim ar barodrwydd pobl i hyrwyddo rhyfeloedd mewn rhannau o'r byd. Un enghraifft drist yw'r rhyfel yn Yemen heddiw, ac amharodrwydd llawer o wleidyddion i ystyried gwrthod gwerthu arfau i wlad fel Saudi Arabia, sy'n rhan o'r ymladd dychrynlyd yno. Rheswm cywilyddus dros barhau i werthu'r arfau yw bod rhywun arall yn siŵr o wneud hynny os na wnawn ni.

Mae rhyfeloedd ein dydd yn gysgod tywyll dros bob cof am ryfeloedd y gorffennol, ac yn cadarnhau'r hyn a ddywed y Beibl y bydd yna ryfeloedd o hyd yn y byd pechadurus hwn. Ond tybed nad oes gysgod pellach dros ein cofio eleni yn sgil yr holl ddadlau ynghylch 'Brexit'? Un o ragoriaethau mwyaf yr Undeb Ewropeaidd yw'r cyfraniad a wneir ganddo er sicrhau heddwch rhwng y gwledydd sy'n rhan ohono. Nid yw'n amhosibl y gallai chwalu'r Undeb arwain yn y pen draw at ryfeloedd pellach rhwng rhai o'r gwledydd hyn. Ond mwy arwyddocaol na hynny hyd yn oed yw amharodrwydd llawer i gydnabod y gallai penderfyniadau anghywir ynghylch dwy ran ynys Iwerddon gael effaith ddifaol ar yr heddwch yno. Gweddiwn y bydd y cof am yr hyn a ddigwyddodd ganrif yn ôl yn atgoffa'n gwleidyddion o bethau a ddigwyddodd yn fwy diweddar o lawer, a hynny yn ei dro yn peri iddyn nhw bwylo.

JOHN PRITCHARD

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

FURNITURE & FLOORING

01286 673535

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Mrs Katy Williams, Tyddyn Waen, Penisarwaun, LL55 3BW Ffôn 0788 165 1029 neu 01248 671622, e-bost ecopenisawaun@hotmail.com

Mae Katy Williams wedi cytuno i barhau â'r gwaith o fod yn ohebydd i'r pentref. Gyda diolch i Anna-Marie Robison am ei gwaith dros y chwe mlynedd diwethaf.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri -Enillydd Mis Medi oedd Mrs Brenda Richardson gyda Rhif 27. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Lion yng Nghricieth dydd Sadwrn, Rhagfyr 8fed. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 12.15 o'r gloch.. Enwau i Janet Ash (871265) Ann Paterson (872405) neu Liz Jones (872421) erbyn Tachwedd 24ain fan bellaf os gwelwch yn dda.

Cydymdeimlad Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 17eg, ar ôl brwydr ddewr bu farw Mrs Annie Evans (Nannie) gynt o 26 Bryn Tirion a Cytir, Brynrefail. Roedd yn berson annwyl a charedig dros ben ac fe deimlir ei cholli gan lawer un. Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'i mab, Meirion, ei merch, Mair a'u teuluoedd, yn ogystal â'i hunig chwaer Mrs Betty Pritchard, Llys y Gwynt, a'i nith, Heulwen, a theulu Bryn Eglwys.

Ysgol Gymuned Penisarwaun

Ymweliad addysgol – Fel rhan

o'u thema "Teithio" y Tymor yma, trefnwyd i fynd â phlant y Cyfnod Sylfaen ar daith ar drên Rheilffordd Llyn Padarn bnawn Mercher, Hydref 3ydd. Cawsant amser hwyliog ar brynhawn braf. Croesawyd Mrs Susan Williams, Cynllun EFE, i gynnal gwasanaeth pnawn dydd Iau, Hydref 11eg. Diolch iddi am ddod yma yn achlysurol, mae pawb yn mwynhau.

Daeth Lowri Williams o'r Urdd i'r Ysgol fore Gwener, Hydref 12fed, i gynnal sesiwn blasu chwaraeon gyda phlant y Cyfnod Sylfaen a'r adran Iau. Cafodd pawb hwyl yn cymryd rhan.

Gwesi Nofio – Mae'r gwersi wedi ail gychwyn gyda 39 o blant yn mynd i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon bob bore dydd Iau.

Cynhelir Ffair Grefftau yn yr ysgol nos Iau, Tachwedd 15fed, am 6 o'r gloch i godi arian tuag at gronfa'r ysgol. Bydd amrywiaeth o stondinau yma a chyfle i wneud ychydig o siopa Nadolig. Croeso cynnes i bawb.

Banc Bwyd Lleol Diolch o galon i bawb a gyfrannodd fwyd yn ystod y gwasanaethau Diolchgarwch i'r banc bwyd lleol yng Nghaernarfon, mae nifer fawr o fwydydd gwahanol i'w roi iddynt.

Gwasanaethau mis Tachwedd Gwasanaeth yn yr Eglwys am 11yb pob bore Sul Sul y Cofio Fe gynhelir gwasanaeth arbennig Sul y Cofio dydd Sul, Tachwedd 11eg, am 10.45yb, ac am 11yb fe bydd gwasanaeth coffa wrth y gofeb i gofio am y rhai o'r pentref a

gollodd eu bywydau yn y ddau rhyfel byd. Fe fydd y gwasanaeth yma hefyd yn cofio 100 mlynedd ers diwedd y rhyfel 1af, a bydd aelodau Ysgol Sul Bosra yn ymuno â ni yn y gwasanaeth arbennig yma ac fe estynnir croeso i bawb ymuno â ni. Fe genir gloch yr Eglwys yn hwyrach yn y dydd i gofio diwedd y rhyfel cyntaf.

Gyrfaon Chwist Fe gynhelir gyrfa chwist yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fawrth am 7o'r gloch

Bingo Arian Fe gynhelir Bingo arian yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, Tachwedd 7fed a'r 21ain, am 7yh.

Ysgol Sul Bosra Fe fwynhaodd nifer dda o blant gwmni Susan Williams o Cynllun EFE gyda stori 'Gideon' a chael ymuno mewn canu bywiog gyda symudiadau ac yna cael mwynhad o liwio ar y bwrdd celf. Dymunir diolch o galon i Susan gan wir obeithio y cawn ei chwmni rhadlon yn fuan eto. Ar Hydref 14eg daeth y plant a'u rheini i ymuno ag aelodau Eglwys Santes Helen mewn gwasanaeth o Ddiolchgarwch. Fe fwynhaodd y plant wrando ar stori a chael cyfle i gario nwyddau 'Banc Bwyd' at yr allor a chael ymuno a'u bendithio yn y Cymun Bendigaid. Cafodd pawb gyfle i nodi eu diolchgarwch ar gefn deilen hydrefol liwgar ac yna addurno coeden â'r holl ddail amryliw. Dymunir diolch i aelodau'r Eglwys am y croeso.

Sylwer: Ni chynhelir Ysgol Sul ar Hydref 28ain na Thachwedd 4ydd oherwydd gwyliau

Diolchgarwch.

Fore Sul, Tachwedd 11eg, sef Sul y Cofio, cynhelir Ysgol Sul ym Mosra o 10.00 tan 10.30 i gofio'r bechgyn a syrthiodd yn y Rhyfel ac yna ymlaen at Gofeb yr Eglwys erbyn 11.00. Buasem y hynod falch o help i gerdded y plant i'r Eglwys am 10.30. Croeso i chi rieni a ffrindiau ymuno yn y Cofio.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd Rhian Tomos, Seion, Bethel, a Gwen Griffith, Tai Arthur.

Cydymdeimlwyd yn ddwys â Delyth a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei chwaer annwyl, Heulwen. Llongyfarchwyd ieuenctid y pentref ar eu llwyddiannau yn yr amrywiol arholiadau a dymunir pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol. Fore Sadwrn, Hydref 27ain, cynhaliwyd Marathon Eryri a diolchir i'r gwirfoddolwyr am gynnig stiwardio ym Mhen y Pas, Safle 2. Bydd y gweithgaredd hwn yn hwb sylweddol tuag at y gost o reoli'r Neuadd Gymuned.

Ar Rhagfyr 20fed bwriedir cynnal pnawn i ddatlu'r Nadolig yn y Neuadd Gymuned am 2.00 gyda chyfraniadau gan blant yr Ysgol ac aelodau'r Pwyllgor. Bydd cyfle i ganu'r Hen Garolau a chael sgwrs hefo paned a mins pei. Mynediad £2 a £1 am raffl. Croeso i bawb ddod atom i gymdeithasu a mwynhau Hwyl yr Wyl. Cynhelir pwyllgor i drefnu datlu'r Nadolig nos Lun, Rhagfyr 3ydd, am 7.00 yr hwyr yn yr Ystafell Gymuned.

Eglwys St Helens

Diolchgarwch am y cynhaeaf Carai swyddogion yr Eglwys ddiolch o galon i bawb am eu gwaith a'u cyfraniadau i addurno yr Eglwys mor hardd eto eleni.

Braf oedd gweld cynulleidfa dda bore Sul, Hydref 14eg, a chroesawu aelodau Ysgol Sul Bosra, eu rhieni a'u hathrawon i'r gwasanaeth yma. Roedd coeden ddiolch yn yr Eglwys ble rhoddwyd cyfle i bawb adio deilen ar y goeden i ddiolch am yr hyn oedd yn arbennig iddynt. Roedd y Ddarllenfa wedi ei haddurno yn arbennig i ddiolch ac i gofio am y rhai a gollodd eu

bywydau o'r pentref yn y ddau ryfel byd ac i gofio 100 ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Nos Lun, Hydref 15fed, eto fe gafwyd cynulleidfa wych yn y gwasanaeth gosber Cymraeg, gyda pregeth ar gerdded ar ddŵr gan Dr Huw Tegid Roberts, a braf oedd cael ei groesawu yn ôl i'r Eglwys, I ddilyn y gwasanaeth fe gafwyd gwledd o fwyd y cynhaeaf a sgwrs ddifyr ar Wlad yr Iâ gan Mr Ray Humphreys, Penarlag. Da oedd gweld y Neuadd yn llawn i'r achlysur yma, a diolch i bawb a gyfrannodd ac a helpodd i wneud yr ŵyl yn llwyddiannus.



Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni, Pregethwr gwadd a Ray Humphreys, Penarlag, siaradwr gwadd yn y bwyd.



Yr Eglwys wedi ei haddurno a llun o bawb yn y Swper Diolchgarwch.

AC ARFON YN CROESAWU CYRSIAU CYMRAEG CLWB CWTSH



Siân Gwenllian, AC gyda Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

Mae AC Arfon Siân Gwenllian wedi croesawu cynllun newydd o gyrsiau Cymraeg am ddim a fydd yn cymryd lle mewn 76 lleoliad ar hyd a lled Cymru ac a fydd yn cyflwyno'r Gymraeg i rieni plant ifanc.

Meddai Siân Gwenllian:

“Clwb Cwtsh ydi enw'r cynllun sydd ar y cyd rhwng y Mudiad Meithrin a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg, ac mae'n defnyddio gemau a chaneuon i gyflwyno'r Gymraeg i rieni ifanc yn y gobaith y byddan nhw'n mynd ati i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

“Lansiwyd y cynllun yn y Cynulliad – sef un o'r 76 lleoliad ar gyfer y cyrsiau – ac roedd hi'n braf iawn siarad efo rhieni ifanc yno sydd yn frwd dros ddysgu'r Gymraeg efo'u plant. Mi wn i am nifer o deuluoedd ifanc yn fy etholaeth i sydd a'u plant yn mynychu ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd ac yn dod i siarad Cymraeg yn gwbl naturiol felly, ac mi fydd yna groeso mawr i'r cyrsiau yma a fydd yn galluogi rhieni i ddod yn ddigon hyderus i siarad a chwarae gyda'u plant drwy gyfrwng y Gymraeg.”

Canlyniad cynllun peilot llwyddiannus a gynhaliwyd yn gynharach eleni ydi hwn ble y gwelwyd 500 o rieni yn cwblhau'r cwrs.

Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

“Dwi wrth fy modd ein bod ni'n lansio ail gyfres Clwb Cwtsh. Ers inni ddechrau'n gynharach eleni, rydym wedi cael ymateb gwyh ledled Cymru. Mae'r ffaith y gall blant ddod i'r sesiynau gyda'u teuluoedd wedi cael ei chroesawu. Rydym yn edrych ymlaen at weld y prosiect yn tyfu ar lawr gwlad.”

grid76 graphic design

North Wales SIGNS

Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com | grid76.co.uk | 07766956673

CANU GERBRONEU CYNULLEIDFA FWYAF ERIOD


Brynhawn Sadwrn 10 Tachwedd bydd Côr Meibion Caernarfon yn canu yn Stadiwm y Principality, Caerdydd i ddiddanu'r dorf cyn gêm rygbi Cymru ac Awstralia. Mae'r gêm hon, sy'n dechrau am 5.20pm, yn un o uchafbwyntiau cyfres ryngwladol yr Hydref.

Bydd y Cofis yn chwifio'r faner dros Ogledd Cymru yng nghwmni tri chôr meibion o'r de, dan arweiniad Dr Haydn James, Cyfarwyddwr Cerdd Undeb Rygbi Cymru. Y corau eraill yw Llanymddyfri, Tadau Trisant o Bontyclun a'r Gentlemen Songsters o Donyrefail.

Bydd yr eitemau'n cynnwys caneuon cyfarwydd i'r dorf fel Calon Lân, Delilah a Waltzing Matilda. Yna bydd y corau'n arwain canu'r ddwy anthem genedlaethol, Hen Wlad fy Nhadau ac Advance Australia Fair.

Meddai Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon, Alwynne T Jones, “Mae'r hogiau wedi cyffroi o gael y gwahoddiad i ganu yn y gêm. Boed ar agor neu ar gau, byddwn yn codi'r to ar y maes cenedlaethol. Dyma'r dorf fwyaf inni ganu iddynt erioed.

“Fel bonws ychwanegol, ar Nos Wener 9 Tachwedd, byddwn yn rhoi cyngerdd yng Nghapel Salem, Treganna, Caerdydd ar wahoddiad Côr Meibion Taf. Mae tocynnau ar gael gan y ddau gôr ac wrth y drws ar y noson. Edrychwn ymlaen at ddiddanu ffrindiau hen a newydd.”



BRO360 LLE AR Y WE

Yn dilyn y newyddion cyffrous am lansio prosiect newydd **Bro360**, mae **Golwg** yn awyddus i benodi:

Ysgogydd x 2

Mae'r ddwy swydd hon yn allweddol i lwyddiant y cynllun – yn gweithio'n bennaf ym mhrif ardaloedd ffocws y prosiect, un yn Arfon a'r llall yn Aberystwyth a Gogledd Ceredigion.

Y SWYDD

- Sbarduno gweithgarwch yn yr ardaloedd dan sylw.
- Hyrwyddo'r prosiect yn y cymunedau lleol a thu hwnt.
- Ysgogi unigolion, mudiadau a grwpiau o bobl o bob math i gymryd rhan ac i gyfrannu at y gwefannau newydd.
- Meithrin perthynas â'r cymunedau a chyfranogwyr.
- Creu a chyfrannu deunydd addas i'r gwefannau bro.
- Cyfrannu syniadau at ddatblygu'r prosiect.

Y PERSON:

- Gallu i drin pobl yn effeithiol.
- Sgiliau cyfathrebu cryf.
- Diddordeb yn y We a'r cyfryngau cymdeithasol a phrofiad o'u defnyddio.
- Syniadau ffresh ac unigryw.
- Trefnus.
- Brwdfrydig a phenderfynol.

Lleoliad y Swyddi: Un yn swyddfa Golwg yng Nghaernarfon ac un yn Aberystwyth/Llanbed

Cyflog: £20,000 i £23,000

Oriau gwaith: Llawn amser, 40 awr yr wythnos

Dyddiad Cau i wneud cais: 23 Tachwedd

Anfonwch lythyr cais, CV llawn ac enwau canolwyr.

Mwy o fanylion: owainschiavone@golwg.com / 01570 423 529

Cofnagr Urwy
Cwmnïau Cwmni Llywodraeth Cymru
Sgopio Ddiwyg Cwbl 2014 - 2020

Supported through the
Welsh Government Rural Communities
Rural Development Programme 2014 - 2020

Prosiect Cymunedau Lleol ac
Thu Hwnt
Lleoliad y Swyddi
Llanbedd Pontfryn, Aberystwyth, Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ar ben arall i'r lein



Wel dyna ni, y tymor drosodd unwaith eto, mae'n nhw yn mynd yn gyflymach pob blwyddyn, neu efallai mai fi sy'n ei gweld hi felly. Dywedodd rhyw synic wrthyf mai fel yna mae hi pan wyt ti wedi cyrraedd oed yr addewid. A minnau yn meddwl na ond y fi oedd yr unig hen synic o gwmpas yr hen le 'ma! Wel, wel, mae rhywun yn darganfod a dysgu rhywbeth newydd pob dydd.

A dyma chi dipyn mwy o lyfrgell fy synicrwydd, mae pawb wedi hen arfer a syrffedu, mwyaf tebyg, am fy mod beunydd yn rhoi rhyw gnoc yma ac acw ar weithredoedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Wel dyma i chwi un arall o sut mae'r criw yma ddim yn atebol i neb. Yn rhifyn Medi o'r Eco cyfeiriais at y scandal o werthu coed, ond yn dod gyda'r holl goed mae'r tiroedd sy'n cynnal y coedwigoedd. Mae llawer o'r rhain yn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell y wlad yn cael ei defnyddio at saethu ffasantod ac aml i gêm arall. Efallai nad ydi saethu fel hyn ddim at ddant llawer un, ond rhaid sylweddoli fod gweithgaredd fel hyn yn cynnal swyddi ac yn atal diboblogaeth yng nghefn gwlad. Fe gomisiynwyd archwiliad (ia, un arall) ar y budd o saethu o'r fath. Fe adroddwyd yn ôl i'r perwyl bod y gweithgareddau saethu 'ma yn fendithiol ac yn rhan o fabrig cefn gwlad, ac y dylai prydlesi presennol gael eu hadnewyddu.

Wel, wyddoch chi be, ein llywodraeth gomisiynodd yr archwiliad, ond yn amlwg nid oedd y canlyniad yn ei plesio. Felly be wnaeth ein Gweinidog dros yr Amgylchedd, sef Hannah Blythyn, o ochrau Fflint, oedd adrodd i fwrdd CNC ei bod yn awgrymu, yn ei meddwl hi y dylai'r adroddiad gael ei diystyru a bod y prydlesi presennol ddim i'w hadnewyddu. A dyma'r bwrdd, yn eu doethineb, yn gwrandao ar y Gweinidog. Mae'n hollol amlwg nad yw'r criw yma ddim y gweithredu eu cyfrifoldebau, sef i gynghori'r corff ar sut i weithredu, mae'n amlwg fod y drol o flaen y ceffyl gan mai'r corff sy'n cynghori'r corff ar be i benderfynu. Mae'n amlwg fod y criw yma allan o bob rheolaeth ac yn atebol i neb, y pryder mawr yw nad yw'r mwyafrif sy'n eistedd yn y bae 'na eisiau cwestiynu'r diffyg atebolrwydd chwaith. Fodd bynnag, mae un peth yn sicr, ni fydd 'run o'r criw yma yn colli eu gwaith fel bydd llawer i un fel canlyniad i'w penderfyniad direswm.

Cyn imi gau ar CNC, mis diwethaf cyfeiriais at sut mae un o benderfyniadau arall afresymol bwrdd y CNC yn datblygu, a hyn i wneud gyda ei awgrym i gyflwyno rhwystredigaethau di-ri ar bysgota eog a gwyniadau. 'Roedd y storm a ddaeth o ganlyniad i hyn yn enfawr o bob cornel o'r wlad ac fe daflwyd y penderfyniad terfynol gan weinidog arall, Lesley Griffiths, i ddwylo'r arolygaeth gynllunio. Y diwrnod o'r blaen derbyniais ohebiaeth y bydd gwrandawriad ar hyn i gyd yn dechrau ar 15 Ionawr 2019 ac i redeg am 12 diwrnod yng ngwesty'r Elephant and Castle, Y Drenewydd, Powys, dan oruchwyliaeth Mr Declan Beggan. Os am wybod mwy am hyn gwnewch ymchwiliad sydyn dros y we.

Oes na rywbeth am 'sgota mis yma medda chi - wel oes mi ddo i at hynny yn y pendraw, ar ôl imi gael y pethau yma oddi a'r fy mrest. Fel 'da chi'n cofio, mwyaf tebyg, ac mae'n amlwg fod llawer yn cofio gan fy mod yn cael y cwestiwn yn aml, "Pa bryd mae 1st Hydro am ddechrau ar y gwaith ar Afon y Bala". Cyfeirio, wrth gwrs, mae hyn at y cynllun gwneud mannau claddu i'r torgoch. Fe gafwyd gwybodaeth ar ddechrau'r flwyddyn y buasai'r gwaith sy'n cynnwys ail broffilio'r glannau a lledu'r afon i oddeutu 20 medr am rhyw 100 medr yn dechrau at ganol eleni. Ond wedyn fe ddaeth cyngor fod yn rhaid gwneud cais cynllunio yn ogystal â threfnu i drosglwyddo rhan o dir o berchenogaeth Cyngor Gwynedd i'r cwmni cynhyrchu trydan. Wel dyna ni botas ydi hyn, mae'r cais cynllunio wedi ei roi gyda amodau na fydd gwaith i'w

wneud o ddiwedd Hydref at ddechrau'r gwanwyn canlynol. Fel rwy'n deall dydi'r trosglwyddiad tir heb ei gwblhau eto felly, wrth reswm, mae wedi mynd yn rhy hwyr i wneud dim eleni. Cefais wybodaeth ychwanegol gan y cwmni na fydd arian i wneud y gwaith yn ystod 2019, ond efallai bydd arian ar gael yn ystod 2020. Does eisiau gras yn does! mae'r cwmni yma yn rhydd iawn ac yn rhoi arian i bob math o sefydliadau o gwmpas y lle, dim un ohonynt wedi cael ei effeithio gan weithgareddau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu trydan.

Ac fel hyn mae hi gyda materion sy'n effeithio ar ein dyfroedd. Pwy sy'n cofio'r llygredd ddaeth o'r Afon Las, Nant Peris, drwy adeiladu gorsaf Bŵer Dŵr ar yr afon? Wel, yn ystod Tachwedd 2017 fe gafodd y cwmniau cyfrifol ddirwy a chostau o £45,700. A ddaeth dim dimau o hyn at wella'r dyfroedd neu fel iawn i'r gymdeithas.

Onid yw'r torgoch yn symbol iconig o'r hen fro 'ma? Does ddim byd tebyg trwy Gymru, does neb yn canu ei gloch ond y ni fel 'sgotwrs. Pam o pam na wnaiff y fro sylweddoli be sydd yma ar stepen ein drws. Faint fuasai'n tyrru i Lanberis am brydyn o dorgoch o'r badell.

Mae fy niolch yn fawr unwaith eto i Dafydd o'r Glasgoed am dynnu fy sylw at un Clive Harold Feigenbaum (1939-2007). Un eithriadol o liwgar oedd Clive, pan oedd ond 18ml oed fe agorodd siop yn prynu a gwerthu stampiau yn Paddington. Bu nifer o sgandalau yn ei fywyd, un oedd gwerthu labeli oedd yn debyg i stampiau, am hyn fe gafodd ei ddiarddel o'r Philatelic Traders Society.

Yn dilyn holl dreialon yr hen dorgoch dyma ddywedwyd, "Yn ddi-os, y mae gwir angen cyhoeddi cyfres o stampiau post yng Nghymru sy'n mynd i gynnwys pysgodyn mor hardd â hwn." Ysgwn i wnaiff rhywun gymryd sylw!!

Wel o'r diwedd cawn droi at tipyn o 'sgota! Er cychwyn simsan a siomedig dros ben i'r tymor, fel daeth hi'n ddiwedd Awst fe welwyd pethau yn rhoi tro am y gorau, yn enwedig gyda'r gwyniadau, ond siomedig gyda'r eog. 'Roedd byd y brithyll brown yn eithriadol a'r hen ffrind, Padarn, yn dod ato'i hun. Clywais fod ychydig o dorgoch yn dod i'r rhwyd, felly ffwrdd â mi, a dyna ni, fe gefais y torgoch cyntaf ers bron i ddeng mlynedd. A neis iawn oedd hefyd, does dim 'sgodyn i'w gymharu fel prydyn.

Cefais luniau hefyd gan Tony Roberts, Llanrug, o fagiad o frithyll brown braf a ddaeth ei ffordd o Lyn Cwellyn, mi oedd rhain yn eithriadol o flasus meddai Tony. Dau 'sgotwr o Lanrug wedi bod yn llwyddiannus yn y ddau fis diwethaf. Mae rhywbeth o gwmpas ardal Llanrug a'i physgotwyr, gan mai yno y bu y cyfarfodydd cyntaf i sefydlu'r Gymdeithas fel ag y mae hi heddiw. Yndi, mae criw Llanrug yn ffyddlon iawn, bechod na fuasai rhai o Lanberis sydd eisiau manteisio ar 'sgota Padarn ar ei newydd wedd yn teimlo 'run fath!

Ar 23 Medi fe gollwyd un a oedd wedi bod yn aelod o'r Gymdeithas ers dros 80 mlynedd, sef Huw Deulyn Williams, Bethel. 'Roedd Huw yn 'sgotwr eithriadol o fedrus, ac mae fy niolch yn fawr iddo am y lluniau gefais eu copio ganddo flynyddoedd yn ôl. Lluniau diddorol dros ben sy'n cadw yn fyw atgofion am yr hen griw a fu mor flaengar yn ein arwain at beth sydd yma ar gael heddiw.

Cefais nifer o atgofion gan Huw am sut yr oedd y pysgota yn y blynyddoedd a fu, yn enwedig ar lynnoedd Nantlle a Dywarchen. Un oedd sut oedd rhaid mynd i'r hen adeilad, a fu unwaith ar y maes parcio yn Dywarchen, i gael tocyn gan gipar y Faenol. Efallai daw amser i roi'r atgofion yma yn yr Eco. Hoffwn estyn ein cydymdeimlad fel Cymdeithas i Maud a'r teulu ar ei colled.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 18fed o Fedi 2018.

Cais y Cyngor i ostwng y cyflymder 40 m.y.a. i 30 m.y.a. yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i wrthod anfon cynrychiolydd i'r Cyngor Cymuned.

Roedd y Cyngor yn siomedig gyda'r penderfyniad ac nad oedd swyddog o'r Cyngor Sir yn fodlon dod i'r cyfarfod i'w drafod. Bydd y clerc yn anfon cwyn swyddogol i Gyngor Gwynedd.

Cais i gofrestru 4 llwybr cyhoeddus

Adroddwyd fod cais wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd i gofrestru 4 llwybr ers amser maith ond heb gael ymateb. Bydd y clerc yn anfon cwyn swyddogol am hyn hefyd i Gyngor Gwynedd.

Clwb ieuenticid Llanrug Adroddwyd fod swyddi ar gyfer y clwb wedi eu hysbysebu.

Adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.

Adroddwyd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud i gau ysgol Cwm y Glo, ond ar hyn o bryd does dim un plentyn yn yr ysgol. Mae'r penderfyniad i gau'r ysgol neu beidio gyda Chyngor Gwynedd.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

Arbedion

Dim datblygiadau newydd yn cynlluniau arbedion. Ond mae'r Cyngor yn awyddus i wybod pa wasanethau'r Cyngor sydd yn bwysig i'r trigolion. Mae posib llenwi holiadur ar lein, hefyd mae

nifer o gyfarfodydd cyhoeddus i leisio barn.

Parc Gwyliau Bryn Têg

Mewn cyfarfod gyda'r Rheolwr a'r Dirprwy, maent wedi cytuno i gynyrchu nodyn wythnosol i adael i drigolion wybod pryd fydd y carafanau yn cael eu symud. Mae Adran Gwarchod y Cyhoedd yn edrych i mewn i'r cwynion am sŵn gyda'r nos.

Gwella'r ffyrdd

Gwnaed gwaith ar hanner y ffordd trwy Gwm y Glo ac ar y palmentydd hefyd. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn yr Hydref. Elusen 'Llanrug Poor House'.

Adroddwyd fod trafodaeth wedi bod gyda Prifathrawes yr Ysgol Gynradd ar y posibilrwydd o allu dosbarthu arian yr elusen i deuluoedd rhai o blant yr ysgol. Trafodwyd nifer o wahanol opsiynau

Cronfa Diffibriliwr

Adroddwyd fod llythyrau wedi mynd allan i bob busnes yn Llanrug a Cwm y Glo a fod £565.00 wedi ei dderbyn tuag at y gronfa. Dosbarthwyd rhestr i

nodi'r rhai oedd wedi cyfrannu. Penderfynwyd rhoi hysbysebion fyny mewn manau cyhoeddus Y Fynwent

Adroddwyd fod y Fynwent wedi derbyn, naill ai gwobr aur neu arian am Fynwent y Flwyddyn am 2018 drwy'r Deyrnas Unedig ar gyfer mynwentydd bach gan y Memorial Awareness Board. Bydd y Clerc ac un aelod yn mynychu'r seremoni wobrwyo a derbyn y wobwr ar ran y Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

1..Codi estyniad deulawr - 13, Bro Rhythallt, Llanrug

2..Creu llety cathod arfaethedig - Bryn Ffridd, Llanrug

3..Trosi adeilad amaethyddol yn annedd un llofft - Bryn Llan Farm, Llanrug

4..Creu maes parcio newydd, mynediad, golau stryd ynghyd a gwaith peiranyddol cysylltiedig - Tir ger / Ystâd Ddiwydiannol Cibyn Industrial Estate, Caernarfon

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Waunfawr

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr nos Fercher, 5 Medi am 7.15 yr hwyr yn Festri Capel y Waun

Presennol - Cadi Jones (Cadeirydd) Edgar Owen, Liz Daniel, Menna Jones, Iwan Davies, Erddin Llwyd, Shoned Rees Griffith (cofnodi)

Ymddiheuriadau - Sali Burns, Delyth Jones, Doug Jones

Datganiad Buddiant - Dim Derbyn Cofnodion 25.07.18 - Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.

Materion yn codi o'r Cofnodion - Materion Caeathro -

1. Ffordd Osgoi Bontnewydd -wedi derbyn e-bost ar ran Ramblers Caernarfon & Dwyfor ynglŷn â chael llwybr cerdded o Caeathro i G'fon unwaith bydd y ffordd newydd yn ei lle. Cyng EO i holi. Disgwyl i'r gwaith gychwyn.

2. Mainc Caeathro - Gwaith peintio y fainc i'w wneud yn fuan.

3. Hen ffordd Caeathro i

Bontnewydd - Dŵr yn codi ar ran o'r ffordd aros Dŵr Cymru

4. Biniâu Baw Ci - Angen monitro ar gyfer y dyfodol.

5. Hysbysfwrdd Caeathro, Cymdeithas Cae Chwarae am drefnu y gwaith i'w atgyweirio.

Materion Waunfawr -

1. Biniâu Baw Ci - Biniâu i gael eu gosod yn ôl yn fuan, a bin ychwanegol i'w osod yn Groeslon, Waunfawr.

2. Tacluso Pentref - Yr Ysgol wedi trefnu ymweliad â Swyddog Cadw Cymru'n daclus ac yna byddant yn mynd o amgylch yn casglu sbwriel.

3. Maes Parcio ger Ael y Bryn - mewn trafodaethau gyda CCG.

4. Les tir tu ôl i'r Ganolfan - Aros pris i wneud trac beics ar y safle. Cae aml dywydd - aros i weld a oes grantiau ar gael i'w adnewyddu cyn trafod ymhellach.

5. Arwyddion cyflymder (fflachio) - I'w drafod ymhellach

6. Cyflymder traffig drwy'r

pentref - Wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r gor yrru drwy'r pentref, monitor arall i'w osod yn fuan, a bydd rhaid cysylltu â'r Heddlu. Wedi holi i gael symud yr arwydd 30 i tu allan i'r pentref ger Cae Main - swyddog i ymweld yn fuan.

7. Clwb Ieuenticid - Yn ailgychwyn yn fuan.

8. Gwefan y Cyngor - angen rhoi mwy o wybodaeth ar y wefan newydd.

9. Diffib - Wedi ei osod a hyfforddiant wedi bod i drigolion y pentref ar gyfer ei ddefnyddio.

10. Ffi Cynghorwyr - Penderfyniad Cynghorwyr Cyngor Cymuned Waunfawr yw i beidio hawlio y ffioedd ar gyfer Cynghorwyr.

11. Rheolau Sefydlog - Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cadeirydd ar y brif bwyntiau, pwysig fod y Cyng i gyd yn eu darllen.

12. Asedau Sefydlog - Gwerth yr Asedau Sefydlog wedi eu cytuno.

13. Ysgol Feithrin - wedi cau dros dro.

Gerddi Bach - Y parc chwarae yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd gan blant y pentref. Wedi gofyn i

gontractwyr glirio gwaelod y safle. Angen holi yr Antur am fainc i'w rhoi ar y safle erbyn y gwanwyn. Safle Glyn Rhonwy -Dim mwy i'w adrodd ar hyn o bryd.

Adroddiadau

1. Lloches Bws- Aros bin newydd i gael ei osod wrth ymyl y lloches bws ger yr hen bost.

2. Y Fynwent - Gwaith o ddymchwel y cwt yn mynd yn ei flaen.

c. Llwybrau Cyhoeddus - Dim i'w adrodd.

Ch. Y Ganolfan- Cyfarfod blynyddol i'w gynnal yn fuan.

Materion Cynllunio - Dim i'w adrodd.

Archwiliad Blynyddol - wedi ei anfon i BDO aros eu hymateb.

Materion Eraill - Gwasanaeth ger y Gofgolofn i gael ei gynnal gyda phlant yr Ysgol Gynradd dydd Gwener, 9fed o Dachwedd, 2018.

Noson goleuo y Goeden Nadolig yn y Ganolfan nos Iau, 6ed o Ragfyr, 2018 am 6.30.


Dyddiad cyfarfod nesaf - 28 Tachwedd, 2018 yn Festri Caeathro

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS MEDI 2018:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 19eg o Fedi, 2018 am 7.00 y.h.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Nicola Brown, Gwilym Evans, Bethan Holding, Aneuryn Jones, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

BRYN LLOYD ROBERTS:

Daeth Bryn Ll. Roberts i'r cyfarfod i sôn am ei gynlluniau i godi arian i osod defibrilators yn Llanberis a Nantperis yn ogystal â hyfforddi pobl i'w defnyddio. Mae hefyd yn gobeithio gwneud yr un peth mewn pentrefi cyfagos. Dywedodd fod gwefan ar gael a'i fod yn bwriadu sefydlu pwyllgor i benderfynu faint oedd ei angen o'r peiriannau achub bywyd, ac yn lle y dylid eu lleoli. Mae dau yn barod yn Llanberis, un yn yr Orsaf Dàn a'r llall yn Mynyddu Gwefru ac mae un hefyd yng nghanolfan y Tim Achub yn Nantperis, ond does dim modd cael gafael arnynt trwy'r amser. Gosodir y rhai newydd mewn mannau amlwg, ac os bydd perygl iddynt gael eu difrodi byddant mewn blwch wedi ei ddiogelu gan rif arbennig. Dymunwyd yn dda i BLIR wrth fynd ati i godi arian a diolchwyd iddo am ei gyflwyniad.

C A D A R N H A U COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 18fed o Orffennaf, 2018 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Parcio, Cae'r Ddôl a Thoiledau: Roedd parcio'n dal yn broblem yn y pentref er gwaetha'r arwyddion a roddwyd ar ddyddiadau rasys mawr. Awgrymwyd bod angen mwy ohonynt dros ardal ehangach er mwyn cael ymwelwyr a chystadleuwyr i barcio yn y mannau priodol. Roedd gwell trefn o ran Cae'r Ddôl, ond pryder hefyd fod nifer y digwyddiadau yn canoli popeth ar y cae gan gynnwys stondinau bwyd a manwerthu gan olygu colled i fusnesau'r pentref. Soniwyd fod nifer cynyddol o gerbydau'n parcio ar y cae, hyn maen debyg oherwydd y masnachu

ychwanegol, a soniwyd mai da o beth fyddai cael gwybodaeth yn lleol am ddyddiadau y rasys a'r digwyddiadau mawrion. Nodwyd fod problemau parcio ym Mhentre Castell o hyd. Chafwyd dim ymateb oddi wrth CG i'r cais am fwy o feysydd parcio yn y cynllun cymorth ariannol i gadw'r toiledau ar agor.

2. 'Trem y Chwarel', Llanberis: Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at gwmni Beresford Adams yng Nghaernarfon yn holi pam fod y tai sy'n cael ei codi ger Fron Goch yn cael eu hysbysebu fel tai "Quarry View". Yn ôl dealltwriaeth y Clerc roedd Cyngor Gwynedd (CG) wedi nodi mai "Trem y Chwarel" fyddai'r enw a dim ond yr enw Cymraeg yn unig oedd i'w ddefnyddio. Roedd yn disgwyl ateb.

Ychwanegodd y Clerc i'r postmon ei holi am 'Crashpad Lodge'. Roedd yn amlwg er yr ymdrechion i berswadio'r perchennog fel arall, fod yr enw hwnnw yn dal i gael ei ddefnyddio ar yr Helfa.

3. Etholiad:

Gyda Gwenda Roberts wedi symud i fyw o'r plwyf a gadael Nantperis ac AJ ar fin gwneud hynny yn Llanberis bydd dwy sedd wag ar y Cyngor. Penderfynwyd mynd ati i'w llenwi. Bydd y Clerc yn cysylltu â CG.

4. Clwb Ieuencid:

Holwyd a gafwyd ymateb pellach i'r hyn yr hoffai pobl ieuanc y pentref ei weld yn lle'r Clwb a gaewyd gan CG. Prin oedd yr ymateb ond roedd hi'n amlwg nad oedd llawer yn colli'r Clwb fel ag yr oedd yn ôl yr ymateb.

MATERION ERAILL:

1. Parcio Peryglus:

Cafwyd cwynion am daccsis yn cystadlu am fusnes bysiau ac am daccsis hefyd yn parcio yn Nôl y Goeden yn hytrach na'r llecyn ar eu cyfer gyferbyn a'r Feddygfa, honnwyd hefyd nad oeddynt bob amser yn parcio'n y llefydd mwyaf diogel. Yn ogystal dywedwyd fod rhesi ohonynt ar y Sadyrnau a'r Suliau yn gwibio'n ôl a blaen o feysydd parcio'r Parc Cenedlaethol ac eraill i Ben-y-Pas ac yn mynd â busnes y bysiau sydd yn cael nawdd cyhoeddus ac yno i leihau trafniadaeth a chynnig gwasanaeth er lles yr amgylchedd. Awgrymwyd cysylltu â CG.

2. Beics:

Soniwyd fod beics wedi cael eu

golchi ar y palmant yn Llanberis. Roedd angen mwy o dystiolaeth.

3. Sul y Cofio:

Penderfynwyd holi a fyddai modd cau'r ffordd am ryw chwarter awr ar fore Sul y Cofio a phenderfynwyd glanhau ac ail beintio'r enwau ar y Gofeb. Adroddwyd fod torch ar gael ers y llynedd, ond holwyd a oedd rhywun yn lleol yn gwerthu'r pabi a derbyn archebion am dorchau eleni.

4. Pamffledi'r pentref:

Cafwyd cwyn fod Cymraeg gwallus yn y pamffledyn i hyrwyddo Llanberis. Haerwyd bod o leiaf 20 o gamgymeriadau. Dywedodd y Clerc iddo weld copi ac iddo gywiro'r Gymraeg. Mae'n amlwg na ddefnyddiwyd y copi hwnnw yn y drafft terfynol. Addawodd y Clerc holi pam.

5. Cae Chwarae CG ym Mlaen y Ddôl:

Adroddwyd fod y mat o dan y si-so yn beryglus a bod elfennau eraill annerbyniol ar y cae. Bydd angen cysylltu â CG.

CYNLLUNIO:

•C18/0579/15/LL - Newid defnydd cyn Swyddfa'r Post yn gaffi a gosod simdde awyru ar gefn yr adeilad - Denbigh House, 36 Stryd Fawr, Llanberis LL55 4EU [Roedd y cynllun wedi ei ganiatau]

•C18/0664/15/LL - Newid defnydd llecyn o dir ar gyfer creu maes parcio ac ardal dadlwytho - tir Glyn Rhonwy, Llanberis. LL55 4EL - dim sylw.

•C18/0739/15/LL - Codi estyniad newydd yn lle ystafell wydr - Plas Eilian, Ffordd yr Eglwys, Llanberis. LL55 4TF - dim sylw.

•C18/0779/15/LL - Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniad newydd - 2 Blaen y Ddôl, Llanberis. LL55 4TL - dim sylw.

•C18/0781/15/LL - Codi tŷ deulawr a llecynnau parcio - tir ger 10 Stryd Siarlot, Llanberis. LL55 4AE - dim sylw.

•C18/0793/15/LL - Estyniad cefn ynghyd â chodi porth yn nhu blaen yr eiddo - 8 Rock Terrace, Llanberis. LL55 4LA - dim sylw.

GOHEBIAETH:

1. Cyngor Gwynedd:

Yn ystod y deufis diwethaf cafwyd nifer o rybuddion am gau ffyrdd. Rhai yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon, eraill i wneud gwaith cynnal a chadw ac, wrth gwrs, yr un i gau'r Stryd Fawr i godi pont newydd ar afon Goch, Pont y Ddôl (Pont Huws Drygist).

2. Cyngor Llanrug:

Cafwyd cais gan Gyngor Llanrug i'r Cyngor ystyried sefydlu cynllun halen ffyrdd ar y cyd a'r

Cyngor hwnnw. Penderfynwyd cadw at y drefn bresennol o gael Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith er mai siomedig oedd yr ymateb wedi body gaeaf diwethaf pan ofynnwyd am gyflenwad.

3. Ysgol Dolbadarn:

Gair o ddiolch am gyfraniad y Cyngor tuag at fws i gludo disgyblion a rhieni i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanellwedd.

4. CG:

Ymgynghoriad ar Orchymyn CG, 'Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd' yn ymwneud â

a) Lôn yr Eglwys, Llanberis 'Dim aros ar unrhyw adeg' - ar ddwy ochr y ffordd o'i chyffordd â Blaen y Ddôl mewn cyfeiriad gorllewinol a gogledd-orllewinol.

b) Ffordd o Maes Padarn i Ddôl Elidir, Llanberis 'Dim aros ar unrhyw adeg' - ar ochr ddwyreiniol y ffordd gerllaw Rhifau 63 a 64 Maes Padarn. Dim gwrthwynebiad.

5. CG:

a) Cau ffordd A4086 o ben lôn Rhes Fictoria hyd at Benygwryd ar gyfer Marathon Eryri, dydd Sadwrn y 27ain o Hydref o 10 hyd 11.30,

b) Cau darn o'r Stryd Fawr o waelod Ffordd Capel Coch hyd at yr A4086 o 7.00 y bore hyd 5 y prynhawn

6. Archwiliad Blynnyddol:

Un cwestiwn yn unig a holwyd gan gwmni BDO parthed yr Archwiliad Blynnyddol. Roedd angen rhoi cyfeiriad post yr hysbysfwrdd lle dangoswyd hawliau etholwyr mewn perthynas â'r Archwiliad. Roedd llun wedi ei anfon yn unol a'u cais, ond doedd hynny ddim yn ddigon da ac roedd angen nodi lleoliad!

Yn ddiweddarach daeth nodyn pellach yn dweud fod y cwmni'n bwriadu amodi (qualify) archwiliad eleni am nad oedd gan y Cyngor wefan. Tybed ydi cyngorau sydd ddim yn diweddarau eu gwefannau am fisoedd lawer yn cael ymateb tebyg?

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Derbyniwyd papurau ymgynghori ar faterion a godwyd o Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031. Dylid ymateb erbyn 25ain o Hydref, 2018.

8. Grid Cenedlaethol:

Nodyn a phamffledyn yn nodi fod cynlluniau terfynol i gysylltu Wylfa Newydd a'r Grid wedi'u cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb Cofnodion Cyfarfod y 4ydd Medi 2018

Cyfeiriwyd at golledion mawr yn yr ardal, a chofion arbenig at y teuluoedd yn eu profedigaeth.

Cofnodion Cyfarfod 3ydd Gorffennaf

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Bin Baw Cwn Brynrefail – Derbyniwyd e byst gan y Cynghorydd Elwyn Jones, yn datgan e rei fod wedi siarad gyda swyddog yn Cyngor Gwynedd, nid yw'r bin baw ci dal heb ei symyd.

A4244 – Cadarnhawyd yn dilyn sawl damwain ger pentref Brynrefail, a'r groesfan, bydd Y Cynghorwyr Martin Davies a Elwyn Jones yn cyfarfod swyddogion o'r Cyngor Sir ar y safle ar Fedi 11eg.

LLnau Gwliau -Yn dilyn cais i llnau yn gyffredinol, cafwyd cadarnhad fod y gwaith o llnau gwliau ar system rhestr ardal, a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y man.

Gor Dyfiant – Mae tocio wedi cael ei wneud yn ardal Bethel, ond y rheswm nad yw y tocio yn cael

ei wneud ar lon Clwt y Bont yw am fod gor-yrru gan yrrwyr bws Arriva. Y clerch i ysgrifennu at y cwmni yn tynnu sylw at hyn.

Arwydd Allt Ddu – Derbyniwyd ymateb o'r Cyngor yn dilyn cais am arwydd yn yr ardal na ellid ei ystyried, gan and yw yn arwydd traffig. Teimlwyd o ran egwyddor, fod cael arwydd enw cywir ar yr ardal yn y Gymraeg yn bwysig. Y clerch i gysylltu yn gofyn amcanbris. Mae y Cynghorydd Elfed Williams yn edrych i mewn i sefyllfa o rai sydd yn aros dros nos yn yr ardal, a bobl yn defnyddio yr ardal at ddefnydd eu hunain, a hyn yn dilyn sawl cŵyn am ddiffyg gwasanaeth toiledau cyhoeddus yno.

Cychod Blodau Rhes Faenol a Rhydfadog, Deiniolen - Mae'n ymddangos fod y broblem gyda'r Cychod Blodau yn Rhydfadog wedi ei setlo. Fodd bynnag, mae trafodeuthau ynglyn a cychod blodau Rhes Faenol dal ymlaen. Mae'r Cynghorydd Elfed Williams mewn cysylltiad a CCG.

Dwr yn sefyll Ty Mawr – Wedi derbyn llythyr fod yna broblem, ac angen cydgydio gyda

Grid Cenedlaethol oherwydd presenoldeb gwifrau trydan, cyn ei adnewyddu.

Gohebiaeth a materion eraill
Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr gan Glerc Cyngor Cymuned LLanrug yn holi os buasai'r cyngor gyda diddordeb mewn prynu grit a llenwi biniau eu hunain. Penderfynwyd fod y gwasanaeth gan Cyngor Gwynedd llynedd yn arbenig, i feddwl ein bod wedi cael sawl achos i ddibynnu ar y gwasanaeth yn dilyn y tywydd garw. Teimlwyd hefyd fod llawer mwy o finiau halen yn ardal Cyngor Llanddeiniolen nac y sydd yn Llanrug, ac wrth gwrs sawl bin ar dir uchel. Felly cytunwyd yn unfrydol i aros gyda'r gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd.

Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Ty Gwyn, Waun – Addasu adeilad presennol yn uned preswyl
1 Cefn Cynrig, Bethel – Estyniad yn y cefn

The Bull Inn, Deiniolen – Newid defnydd Tafarn yn llety gwyliau
Gerafon, Deiniolen – Estyniad drwy godi uchder rhan o'r to presennol.

Capel Libanus, Clwt y Bont – Newid defnydd capel segur i lety gwely a brecwast.

Tir Gyferbyn a Tai Madog, Stablau – Gosod gwaith trin carthion.

Y Gelli Gyffwrdd – Tystysgrif Datblygiad Cyfreithloni.

Seddi Gwag

Yn dilyn llythyr arweiniol gan yr Adran Etholiadau, Cytunwyd i hysbysebu 2 sedd wag, un yn Ddeiniolen, a llall ym Methel. Y clerch i drefnu gyda Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd.

O gwmpas y Bwrdd

Penisarwaun – O dan draed tu allan i Cysgodfan Bws Penisarwaun yn fwlud. Y clerch i drefnu fod slabiau yn cael eu rhoi lawr.

Deiniolen – Dywedodd Emma Chappell, fod yn amserol i drefnu i gasglu sbwriel o amgylch y pentref unwaith eto, ac y bydd yn gwneud hyn yn ystod yr wythnosaf nesaf.

Brynrefail – Mae'r fainc yn Trem Eilian yn cael ei chysgodi gan gerrig mawr, ac nid oes posib mynd ati i eistedd. Y clerch i gysylltu a CCG i ofyn iddynt symyd y cerrig.

Toiledau Cyhoeddus Gilfach Ddu – Dywedwyd bod rhai wedi bod yn y toiledau ger y Maes Parcio gyda pobl ddiethr i'r ardal, a bod golwg ar y toiledau, yn fudur ac angen eu tacluso. Y clerch i gysylltu a Cyngor Gwynedd.

Cysgodfan Bws Rhydfadog – Dywedodd Y Cynghorydd Elfed Williams fod 2 berson wedi atgyweirio panel yn y cysgodfan bws yn dilyn fandaliaeth. Y clerch i yrru llythyr yn diolch.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

TUDALEN YR IFANC

Ai chi yw newyddiadurwyr y dyfodol?!

Oes gennych chi ddiddordeb mewn ysgrifennu, ymchwilio a siarad am newyddion lleol, digwyddiadau neu bach o 'gossip'? Boed yn erthygl i brint neu'n bwt bach i'r wefan, blog neu baragraff – rydym ni eich angen chi!

Gydag Eco'r Wyddfa yn cofleidio'r oes fodern, a'n gobeithio ehangu ein cynnig digidol, rydym yn chwilio am bobl (ifanc neu hen) sydd efo diddordeb mewn ysgrifennu, rhannu lluniau neu wybodaeth am newyddion y fro. Cyfle arbennig i chi gyfrannu i les y Gymraeg yn ein bro!

Os oes gennych chi unrhyw ddiddordeb cyfrannu, neu am sgwrs cysylltwch â Marged Rhys ar marged_3@hotmail.com



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Cynllun Efe Comisiynu Susan



Cynhaliwyd oedfa i gomisiynu Susan Williams yn Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd newydd Cynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union Cymru yng Nghanolfan y Capel, Caethro nos Iau, Hydref 18. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth yno i ddathlu gyda ni. Cafwyd oedfa fendithiol iawn.

Y Parchg Marcus Robinson oedd yn llywyddu. Estynnodd groeso i bawb ohonom cyn gweddio am fendith Duw ar y cyfan. Roedd yr addoliad yng ngofal Siân, Lowri ac Arwel o gapel Caersalem, Caernarfon.

Cyflwynodd y Parchg John Pritchard adroddiad am waith Cynllun Efe a'r hyn a arweiniodd at benodi Susan i'w swydd newydd. Diolchodd yr un pryd i Catrin Hampton am ei gwasanaeth o fis Medi 2007 hyd ddiwedd Gorffennaf eleni. Roedd Catrin wedi methu â dod i'r oedfa, ond dymunwyd yn dda iddi hi a Corey ei gŵr yn eu swyddi newydd gydag Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn Sir Gaerfyrddin. Estynnodd groeso i Andrew Settatee, ein gweithiwr cyntaf a fu gyda ni o fis Hydref 2008 hyd ddiwedd Chwefror 2017; a llongyfarchodd Andrew ar ei ddywedd iad yn ddiweddar â Heather Cartwright.

Darllenwyd rhannau o lythyrau Paul at Timotheus gan Menna Machreth.

Daeth Susan ymlaen wedyn i sôn am ei llawenydd o gael mentro i'w swydd newydd. Soniodd am ei phrofiad ei hunan o ddod i ffydd yn Iesu Grist yn ifanc, ac am ei hargyhoeddiad o werth cenhadu ymhlith plant a phobl ifanc. Soniodd am ei chysylltiad â gwaith Cynllun Efe o'r cychwyn cyntaf dros dair blynedd ar ddeg yn ôl, ac am y fendith a'r mwynhad a gafodd dros y blynyddoedd fel aelod o Bwyllgor Efe ac wrth iddi wasanaethu yn yr ysgolion

ac yng nghapeli ac eglwysi'r fro. Edrychai ymlaen yn eiddgar at wasanaethu yn ei swydd newydd, a diolchodd am bob croeso a chefnogaeth a dderbyniodd eisoes.

Roedd y weithred o gomisiynu Susan i'r gwaith yng ngofal Marcus Robinson, ac ymatebodd Susan yn gadarnhaol i'r cwestiynau a ofynnodd iddi fel rhan o'r ddefod. Offrymwyd gweddio dros Susan a'r gwaith gan gynrychiolydd Scripture Union, Helen Franklin.

Yn ei neges cyn yr emyn olaf, soniodd y Parchg Rhys Llwyd am y proffwyd Elias yn herio proffwydi Baal ar Fynydd Carmel gan ein herio i 'ddod oddi ar y ffens', ac i beidio â chloffi rhwng dau feddwl ond i gofleidio a phlygu i'r gwir Dduw a'i datguddiodd ei hunan yn Iesu Grist yn hytrach na chofleidio rhyw gymysgfa o grefydd a duwiau o'n gwneuthuriad ein hunain. Anogodd bawb ohonom i weddio dros Susan wrth iddi hithau annog pobl i geisio Duw. Boed i'r Ysbryd Glân ein tanio ni a'r gwaith.

Wedi'r oedfa, cafodd pawb gyfle i sgwrsio a mwynhau'r lluniaeth a oedd wedi ei baratoi gan aelodau Capel Caethro. Diolch iddynt am eu croeso hael.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth. Gweddïwch dros Susan a thros bopeth y bydd yn ei wneud yn enw ei Gwaredwr yn ei swydd newydd.



Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwig – Ddoe, Heddiw ac Yfory

Fel rhan o gynllun Dyfodol Gwledig, sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, bydd cyfle i drigolion Deiniolen, Clwt Y Bont a Dinorwig fynychu digwyddiad arloesol yn Ysgol Gwaun Gynfi ar Ddydd Sadwrn 24ain a Dydd Sul 25ain o Dachwedd. Bydd croeso i drigolion alw i mewn unrhyw dro rhwng 10.00 y.b. a 4.00 y.h. dros y ddau ddiwrnod.

Yn y Rhaglen Dyfodol Gwledig, bydd Partneriaeth Severn Wye-BRO yn gweithio mewn deg cymuned i ddarparu cefnogaeth gadarn, arloesol iddynt hwy ac i asiantaethau lleol. Gan weithio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae eu hymagwedd yn seiliedig ar yr egwyddor bod pobl leol yn deall y materion gorau sy'n effeithio ar eu cymunedau a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â hwy. Fel canlyniad, nôd Dyfodol Gwledig yw rhoi pobl yn y blaen. Er mwyn gwella'r dull hwnnw, bydd y bartneriaeth yn cefnogi'r camau hynny trwy eu cysylltu yn effeithiol â'r arfer gorau a thystiolaeth sy'n gysylltiedig a gwreiddiau y materion sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig.

Y newyddion da ydi bod ardal Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwig wedi eu dewis fel un o'r deg cymuned sydd yn mynd i gael eu targedu yn y rhan gyntaf o'r Rhaglen Dyfodol Gwledig.

Bydd Adrian Roberts o Severn Wye yn cydweithio gyda'r gymuned dros y flwyddyn nesaf i geisio eu grymuso, a'u helpu i ddatblygu prosiectau sydd yn bwysig i'r trigolion. Ar ôl y cyfnod hyn, bydd Adrian yn symud ymlaen i weithio gyda cymunedau eraill, felly mae'n allweddol bod y gymuned yn cymryd perchnogaeth o'r prosiectau o'r cychwyn.

Mae'r digwyddiad yn Ysgol Gwaun Gynfi ar y 24ain a 25ain o Dachwedd wedi ei drefnu er mwyn ceisio darganfod beth sydd yn bwysig i bobl lleol. Mae'r digwyddiad wedi ei ddylunio gan yr arlunydd, Naomi Heath, a bydd nifer o weithgareddau yno. Bydd cyfle i drigolion fynd ar siwrne o'r gorffennol i'r presennol, cyn



edrych hefyd tua'r dyfodol. Bydd ffocws eithaf cryf ar y themau llechi, a bydd hynny'n plethu'n dda efo'r cais Safle Treftadaeth y Byd, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd.

Bydd cyfle i bobl rannu eu straeon a'u hatgofion, i adnabod cryfderau a gwendidau yr ardal, i leisio barn ac i rannu syniadau. Bydd yr awyrgylch yn hollol anffurfiol, gan annog pobl i aros am banded a sgwrs. Mae mynediad am ddim, a mae croeso i bawb, felly dewch yn llw a chymryd rhan.

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Cynllun Dyfodol Gwledig, gweler <https://www.ruralfutures.wales/>

Os hoffech drafod unrhyw beth parthed y Cynllun neu'r digwyddiad, ebostiwch Adrian Roberts, (y swyddog fydd yn gweithio yn ardal) ar adrianr@severnwye.org.uk

TA TA CROFTY

Yn dilyn tymor siomedig iawn ble gorffennodd Morgannwg ar waelod ail adran criced Pencampwriaeth y Siroedd, daeth y newyddion am ymddiswyddiad y prif hyfforddwr Robert Croft. Wedi cyrraedd yr 8 olaf am y ddau dymor diwethaf – gan gynnwys cyrraedd y pedwar olaf yn 2017 – yng nghystadleuaeth y T20, siomedig fu'r perfformiadau eleni. Wedi rhediad da collwyd y dair gêm olaf, allan o'r gystadleuaeth a'i mantais ariannol amlwg.

Roedd 'Croft' wedi rhoi gwasanaeth clodwiw i Forgannwg fel chwaraewr ac is-hyfforddwr cyn ei benodi yn brif hyfforddwr yn 2016. Fel chwaraewr ef oedd unig chwaraewr Morgannwg i sgorio 10,000+ o rediadau a chipio 1,000+ o wicedi dosbarth cyntaf. Cynrychiolodd dimau prawf Lloegr 21 o weithiau ac mewn 50 o gemau undydd – eto'n record i chwaraewr o Forgannwg.

O apwyntio Croft yn brif hyfforddwr roedd yn ymddangos fod trindod brofiadol mewn safle i feithrin y 'talentau' ifanc ar y staff a chynnal y ddelfryd o Forgannwg fel Tîm Cymru. Gyda Croft roedd Matthew Maynard yn hyfforddwr batio a Steve Watkin yn hyfforddwr bowlio. Dau uchel eu parch – a dau wedi priodi dwy chwaer o Borthaethwy. Er y profiad ni lwyddodd y drindod â gwella perfformiadau. Boddwyd y tîm a thramorwyr o Dde'r Affrig ag Awstralia ond gydag anafiadau a galwadau rhyngwladol yn cwtogi eu cyfraniad, siomedig iawn fu'r canlyniadau. Cafwyd ambell fflach yn y T20 ond siomedig iawn fu canlyniadau'r gêm pedwar diwrnod. Yn wir cafwyd y sarhad o ambell gêm yn gorffen o fewn dau ddiwrnod. Prin iawn oedd y tîm yn sgorio 300+ yn eu batiad cyntaf – hollol anghenrheidiol os am ennill gemau. Anaml iawn y bowlwyd y gwrthwynebwyr allan. I mi'n bersonol trist yn ystod eu gêm ym Mae Colwyn eleni oedd llawer yn gofyn i mi 'pw ydy'r chwaraewr yna?' Mor wahanol pan oedd Viv Richards, Maynard, James, Watkin... mor gyfarwydd i'r dorf. Yn amlwg mae'r

Sir wedi dioddef o wario arian mawr i ddenu gemau rhyngwladol i Erddi Sophia ar draul ariannu, denu a datblygiad chwaraewyr o brofiad.

Cafwyd ymchwiliad; ac yna diswyddo Croft. Yn bersonol cytunaf â'r penderfyniad. Mae tri thymor yn gyfnod digonol i geisio gweld arwyddion o ddatblygiad. Ef ddenodd nifer o'r chwaraewyr ifanc i'r clwb. Prin fu eu datblygiad. Siom oedd gweld Aneurin Donald, un o'r ychydig 'ddoniau' yn gadael y Sir. Yn amlwg, nid oedd strategaeth yn ei le, ac anodd i'w dderbyn – yn enwedig o gofio eu hoedran – nad oedd rhai o'r chwaraewyr yn ddigon da. Ysgol ddrud yw ysgol profiad. Cofiw'n hefyd fod dau gymeriad cryf – a styfnig ar brydiau – Croft a Maynard – wrth y llyw. Sut berthynas oedd rhyngddynt tybed. Ai dyhead y ddau oedd bod yn 'rhif un' – sefyllfa amhosib wrth gwrs.

Fel y dywedais ar Taro'r Post bydd rhai yn cymharu datblygiad y chwaraewyr ifanc ym Morgannwg gyda'r ieuencid sy'n torri trwodd bellach dan Ryan Giggs yn nhim pêl-droed Cymru. Awrygylch arall ble mae'n anodd i lwyddo. Y gwahaniaeth yw fod y pêl – droedwyr yn y dyddiau llwm – diolch i Osian Roberts a'i staff- wedi gosod strwythr bendant o hyfforddi a datblygiad i'n hieuencid. Mae'n cwl bellach i ieuencid Cymru drafod pêl-droed Cymru, nid edrych dros y ffin. Mae'n gyfnod anodd i griced yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda'r niferoedd o blant sy'n chwarae'r gêm, a'r nifer o gemau yn lleihau. Nid yw strategaethau Bwrdd Criced Cymru yn gweithio ar hyn o bryd. Mae'r clybiau yn cael eu boddi gan holiaduron. Nid ar bapur mae chwarae criced.

Fel llawer ym myd y campau proffesiynol, "Hwyl fawr, a diolch Crofty" fydd hi ac aiff y byd yn ei flaen. Mae clwb Morgannwg bellach ar groesffordd. Mae'r apwyntiad o hyfforddwr nesaf y Sir yn gosod sylfaen am y deng mlynedd nesaf. Pob hwyl iddo.

Colli cyfaiil o'r Eidal Ken Jones yn talu teyrnged i Gianpietro Botta

Daeth y newyddion trist i bentref Llanberis ar y 15fed o fis Hydref o farwolaeth yr Eidalwr Gianpietro Botta, cymeriad hoffus ac adnabyddus a fu'n ymweld â'r pentref er bron i ddeugain mlynedd er mwyn cymryd rhan yn Ras Yr Wyddfa.

Ef, yn bennaf, oedd yn gyfrifol am roi'r statws rhyngwladol i'r Ras, ac fe fu'n rhan allweddol o sefydlu'r gefeillio rhwng Llanberis a'i ddinas enedigol ef - sef Morbegno yng Ngogledd yr Eidal.

Ganwyd Gianpietro yn Morbegno yn 1945 ac fe drigodd yno trwy gydol ei oes. Teiliwr oedd ei waith bob dydd ond ei gariad mawr mewn bywyd oedd rhedeg mynydd. Roedd yn rhedwr cryf ac abl ac fe lwyddodd i redeg yn Ras Yr Wyddfa dros 30 o weithiau. Fo hefyd oedd trefnydd y ras sydd wedi ei gefeillio gyda Ras Yr Wyddfa - sef y Trofeo Vanoni, sy'n cael ei chynnal ym Morbegno bob mis Hydref.

Rwyf yn hynod o ffodus o gael dweud inni fod yn ffrindiau agos iawn ers bron i 40 mlynedd ac y mae'r hanes sut y deuthum i'w gyfarfod yn un diddorol iawn. Yn dilyn ras yr Wyddfa 1979, derbyniais lythyr gan ennillydd y ras, Ricky Wilde, yn awgrymu ei bod hi'n hen bryd i un o rasys mynydd gwledydd Prydain wahodd rhedwyr mynydd Rhyngwladol Ewrop i un o'n rasys. Cysylltais yn y lle cyntaf ag ysgrifennydd Spiridon U.K, a oedd gyda nifer o gysylltiadau â rhedwyr Ewropeaidd. Ffurfiwyd Clwb Spiridon fel anrhydedd i Spyridon "Spyros" Louis, cludwr dŵr o Athen a enillodd marathon gyntaf Gemau Olympaidd Haf 1896, gan ddod yn arwr cenedlaethol. Agorwyd y gemau Olympaidd modern yn Athen ar y 6 Ebrill 1896 yr union ddiwrnod ac agoriad swyddogol Rheilffordd yr Wyddfa. Ethos clwb Spiridon oedd ei bod yn ofynnol i bob aelod ddarparu llety am ddim i redwyr Rhyngwladol.

Rhywfodd gwnaed cysylltiad â Gianpietro Botta ac fe drefnodd i griw o ddeuddeg i ymweld â Llanberis ym mis Gorffennaf 1980. Cofiaf yn dda groesawu'r grŵp yng Ngorsaf Reilffordd Bangor ar nos Wener y 18fed o Orffennaf cyn eu cludo i Lanberis. Roedd cyfathrebu'n anodd ar y cychwyn er bod ganddynt gyfieithydd yn eu plith. Pan wawriodd diwrnod y ras (19 Gorffennaf) roedd Llanberis a'r Wyddfa wedi ei gorchuddio mewn niwl a chymylau ac erbyn yr amser cychwyn agorodd y nefoedd a bu'n bwrw glaw yn barhaus trwy gydol y ras. Nid oedd gan y rhedwyr Eidalaid amser i ymweld â'r cwrs cyn cystadlu ac mewn dim diflannodd y rhedwyr i'r cymylau ar eu taith i gopa'r Wyddfa. Gallwch ddychmygu fy mhryder, fel trefnydd, wrth i'r Eidalwr, Privato Pezzoli, arwain y ras o'r cychwyn ond rhywsut fe lwyddodd i ddod o hyd i'r copa mewn tywydd difrifol gan ddychwelyd yn fuddugol i'r llinell derfyn yn Llanberis.

Ychydig a wyddwn ar yr y pryd pa effaith fyddai buddugoliaeth Privato Pezzoli yn ras 1980 yn ei gael ar berthynas cymunedau Llanberis a Morbegno. Yn syth ar ôl cyflwyno'r buddugwyr gadawodd yr Eidalwyr am eu taith yn ôl i'r Eidal. Ni wnaed fawr o gyswllt yn ystod y misoedd

nesaf ond ym mis Mai 1981, cysylltodd Pietro â mi unwaith eto a gwnaed gwell trefniadau ar gyfer ymweliad 1981. Ym mis Hydref canlynol fe ymwelais â Morbegno gyda thim o redwyr lleol i gystadlu yn ras y Trofeo Vnoni am y tro cyntaf a chael y croeso cynhesaf un. Er nad oedd Pietro yn medru llawer o Saesneg ac nad oeddwn innau'n medru llawer o Eidaleg, yr oeddem yn deall ein gilydd i'r dim rhywsut, a threuliais oriau diddorol yn ei gwmi yn crwydro mynyddoedd Eryri a'r Alpau ac yn ymweld â'i gartref, ei weithle â'i ardal fendigedig yn Valtellina. Daeth ei deulu ef a fy nheulu innau'n ffrindiau gorau, cysylltiad sy'n parhau hyd heddiw.

Er y dyddiau cynnar hynny ar ddechrau'r 80au mae cannoedd o redwyr o Gymru wedi cymryd rhan yn y ras Trofeo Vanoni a Ras yr Wyddfa. Cymaint fu llwyddiant y cyswllt unigryw yma fel y gefeillwyd y ddwy ras a'i gilydd yn ogystal â chlybiau athletau C.S.I. Morbegno ac Eryri. Mae'r cyfeillgarwch rhwng y ddwy gymuned bellach wedi ymestyn a choronwyd hyn pan efeilliodd pentref Llanberis a dinas Morbegno yn 2004.

Fe wnaeth Pietro nifer o ffrindiau a chyfeillion yn Llanberis a'r ardal dros y blynyddoedd. Ers bron y cychwyn, fe fuodd ef a nifer o redwyr eraill yn lletya gyda rai o drigolion Llanberis sef Meirion a Celia Thomas, a Madge a'r diweddar John Davies, neu 'John Di Garej' fel y byddai'r Eidalwyr yn ei alw'n hoffus. Roedd y cysylltiad yn un unigryw a byddai sawl 'parti pasta' yn Llanberis yn dilyn y Ras, yn aml yn parhau i oriau mân y bore a Pietro, ymysg eraill, yn arwain y canu Eidalaid...

Roedd Pietro yn hynod hoff o Ras yr Wyddfa ac yn son yn aml fel yr oedd y cwrs yn un a oedd yn cynnig sialens gorfforol yn ogystal â meddyliol. Yn ei araith yn ystod seremoni gefeillio Llanberis a Morbegno awgrymodd fod holl arweinwyr y byd yn rhedeg i fyny ac i lawr yr Wyddfa cyn gwneud penderfyniadau pwysig gan y byddai gweithred o'r fath yn gwneud y byd yn llawer mwy heddychlon. Wedi meddwl am y peth, dw i ddim yn amau y byddai hynny yn syniad doeth. Y flwyddyn nesaf bydd Ras Yr Wyddfa yn dathlu'r deugain ymweliad olynol a di-dor gan redwyr Eidalaid. Mi fydd 'na fwllch anferth a hiraeth am Pietro Botta, ond bydded i'r cyfeillgarwch unigryw hwn a'r berthynas wych hon rhwng Llanberis a Morbegno, barhau a ffynnu er cof amdano a'i frwdfrydedd dros wneud ffrindiau newydd a chyfuno cymunedau a gwledydd drwy gyfrwng rhedeg mynydd.



PÊL-DROED LLEOL

Oherwydd Storm Callum ac ambell i Sadwrn rhydd ychydig o gemau â chwaraewyd yn ystod y mis. Ymysg y rhai aeth ymlaen gwelwyd Llanrug a Llanberis yn ffarfelio â Chwpan Cymru. Wedi eu curo yn hawdd ar Eithin Duon dair wythnos yn ôl efallai bydd Llanrug yn hapus a phwynt yn unig draw ym Mhenrhyndeudraeth. Aros yn bedwerydd mae Llanrug yn y gynghrair. Wedi cychwyn addawol, fel dail yr Hydref, cwmpo mae Llanberis, a siomedig oedd eu perfformiad o groesi i Ddyffryn Ogwen i herio Mynydd Llandegai. Eisioes collwyd 6 o'u 10 gêm gynghrair gan ennill tair yn unig.

Mae ail dimau Llanrug a Llanberis wedi chwarae ei gilydd ddwywaith yn barod y tymor hwn. Llanrug yn ennill yn Llanberis, a Llanberis yn ennill yn Llanrug. Rhyfedd o fydd!



Gwantan yw hi tua'r Waunfawr hefyd a bydd angen ennill eu gemau cynghrair mewn llaw i symud o bedwar isaf Cynghrair Gwynedd. Siom hefyd oedd mynd allan o'r Cwpan Iau yn y rownd gyntaf drwy golli gartref o 6-2 yn erbyn Rhos Utd. o fro Bae Colwyn.

BAFTA I'R ARDAL



Erbyn hyn mae un o sêr byd y cyfryngau ym maes chwaraeon wedi hen ymgartrefu yn Llanddeiniolen. Cyfeirio rydwyf at Owain Tudur Jones – neu O.T.J. chwedl Malcolm Allen, un arall o'n 'hogia ni'. Mae Owain yn llais cyfarwydd ar raglenni radio Camp Lawn ac Ar y Marc, ac ar raglenni Sgorio ar lefel clwb a rhyngwladol. Unai fel ail-lais, dadansoddwr neu sylwebydd mae ganddo ddull derbyniol iawn yn ei waith. Fel un a symudodd ymlaen o ddinas Bangor i Abertawe (a Chymru) a sbel yn yr Alban cyn i anaf ddirwyn ei yrfa i ben mae'n amlwg yn 'deall' y gêm. Yn fwy pwysig, nid yw yn or-gymhlethu wrth fynegi barn. Mae ei iaith yn safonol a dealladwy. Yn wir mae'r cyfuniad o Owain a Malcolm ar ddiwedd gemau yn gydbwysedd da yn fy marn i. Little a Large!

Ac eleni, wele Owain y cyflwynydd yn derbyn BAFTA am ei waith gyda rhaglen chwaraeon i blant Cic. Yn y rhaglen cyflwynir sgiliau pêl-droed i blant, er ceir cyfeiriad at ambell i gamp arall. Yma eto gwelir ei broffesiynoldeb, ac mae'n amlwg yn gartrefol yn trosglwyddo elfennau o sgiliau i blant. Llongyfarchiadau Owain, a phob dymuniad da i ti yn dy yrfa cyfryngol. (Diolch i Adran Cyhoeddusrwydd S4C am ganiatad i ddefnyddio'r llun.)

NAWDD I G.P.D. IEUENCTID BETHEL



Mae'r wên ar wynebau'r plant yn adrodd cyfrolau wrth i'r clwb dderbyn nawdd sylweddol yn ddiweddar. Dyma ddatganiad ar ran y clwb gan y Cyng. Sion Jones, Ysgrifennydd y Clwb.

“ Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Grid Cenedlaethol am roddi nawdd o £20,000 i'r clwb yn ddiweddar. Cawsom groesawu cynrychiolydd o National Grid draw i Gae Coed Bolyn i gyflwyno'r siec. Cafwyd cyfle i arddangos ein cyfleusterau ac i amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd yr arian yn gam mawr ymlaen. Y prif waith fydd addasu yr adeilad yn ystafelloedd newid pwrpasol ac efallai datblygu lolfa gymdeithasol.

Mae'r clwb pel-droed ieuencid wedi denu llawer o chwaraewyr ychwanegol o'r ardal eleni,. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio dros y Clwb ac i'r gwirfoddolwyr am eu hymdrech.”

MAE ERAILL YN DARLLEN YRECO

Rwyf wedi datgelu yn aml mai fy mwriad dros y 38 mlynedd olaf fel Gohebydd Chwaraeon oedd cymysgu straeon a llwyddiannau lleol gyda thrafodaeth a barn bersonol ar agweddau Cymreig ym myd y campau. Fy rheswm dros hyn yw'r prinder o hyd o drafodaeth Gymraeg o fydd y campau. Cawn ein boddi yn ddyddiol gan hanesion o dros y ffin oherwydd papurau Seisnig ry'm yn eu prynu. Yn ein papur 'ni' (?) y Daily Post, llwyddir rhywsut i gael tair tudalen am Lerpwl/Everton/Man Utd bob dydd. Ceir adroddiadau am eu gemau – ie draw yn Ewrop hyd yn oed – y bore canlynol, ond rhy hwy'r yw unrhyw gêm Gymreig sy'n gorffen ar ôl naw!

Braf felly oedd derbyn ffôn yn ddiweddar gan Hywel Roberts (Ben) gynt o Ddeiniolen ond bellach o ardal Bae Colwyn. Roedd Hywel wedi darllen fy erthygl ar Robin McBryde yn yr Eco. Hefyd fy nghyfeiriadau at ddatblygiad tîm rygbi Gogledd Cymru. Rwy'n ymwybodol bellach bod nifer o'r ardal hon – fel Mary a minnau – yn mynychu Stadiwm Zip World, Bae Colwyn i weld gemau Rygbi Gogledd Cymru. Hefyd am gyfraniad hogiau'r gorllewin i'r tîm. Gofyn roedd Hywel os buaswn yn rhoddi caniatad i'r erthyglau ymddangos ar wefan RGC. Roeddwn yn falch i roddi caniatad – er na chyrhaeddodd Tocyn y Wasg acw hyd yn hyn. Yn yr un modd bydd y BBC yn cysylltu â mi a'r Golygydd yn dilyn ambell stori neu holi am gyfranwr i ddilyn rhyw stori.

Cefais gyfle i longyfarch Hywel. Nid yn unig ei fod yn weithgar gyda RGC ond mae bellach yn aelod o Fwrdd Undeb Rygbi Cymru fel cynrychiolydd y Gogledd. O gofio ei gefndir yn y byd ariannol, gobeithio y gellir denu arian i'r rhanbarth. Cofiaf Gareth ei fab yn chwaraewr grymus draw yn David Hughes. Mae Gareth yn dal i fyw yn y Canolbarth ac yn aelod gwerthfawr â sefydlodd dîm rygbi y COBRA yn ardal Meifod.



Gwasanaeth Gwres
a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Chwaraeon

Llwyddiant ceufadu



Llongyfarchiadau mawr i Anya Wharton, Ysgol Brynrefail, ar ei llwyddiant ym Mhencampwriaeth Ceufadu Ieuentid Prydain ddydd Sadwrn, Hydref y chweched. Dewiswyd Anya ar gyfer carfan Cymru yn y gamp dros yr haf ac mae hefyd wedi cael ei dewis ar gyfer 'carfan dalent' o fewn hynny ar gyfer y tymor sydd i ddod. Daeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth unigol ar gyfer ei hoedran ac yn 1af yn y ras C2 (ceufadu dwbl)! Da iawn Anya a phob hwyl i'r dyfodol yn y maes yma.

Sgio



Cynhaliwyd Cystadleuaeth Sgio Ysgolion Cymru yn Llangrannog Ddiwedd y mis. Dyma'r canlyniadau ar gyfer Ysgol Gynradd Llanrug.

Yn cystadlu Cadi Owen, Lois Owen, Summer Girling a Beca Owen. Daethant yn 6ed allan o 8 fel tim ac roedd Summer yn 3ydd dan 10 oed.

Da iawn nhw - diwrnod llwyddiannus iawn.

(Mae'r llun yn dangos criw Ysgol Llanrug yn gymysg a rhai Ysgol Brynrefail – gweler tudalen Ysgol Brynrefail am adroddiad)